

At: Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau  
Democrataidd

Dyddiad: 28 Medi 2020

Rhif Union: 01824 712589

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 2 HYDREF 2020** am **10.00** am.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 04 Hydref 2018 (copi ynghlwm).

**5 CYNLLUN ADFERIAD COVID-19 AR GYFER Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 11 - 18)

I dderbyn adroddiad am Gynllun Adferiad Covid-19 ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeedig).

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU'R CYNGOR 2019/2020** (Tudalennau 19 - 54)

Derbyn adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar eu gweithgareddau yn ystod 2019/20.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020 / 2021** (Tudalennau 55 - 142)

Derbyn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y 'Panel') ar gyfer 2020/21 (copi'n amgaeedig).

**8 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU** (Tudalennau 143 - 158)

Derbyn yr adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol a phenodi Cadeiryddion Craffu (copi'n amgaeedig).

**9 AMSERLEN BWYLLGORAU 2021** (Tudalennau 159 - 176)

Derbyn adroddiad sy'n cynnwys amserlen ddrafft pwyllgorau ar gyfer 2021 (copi'n amgaeedig).

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

I ystyried adroddiad llafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
Rachel Flynn  
Hugh Irving  
Alan James  
Gwyneth Kensler

Christine Marston  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
Graham Timms  
Joe Welch

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn YSTAFELL GYNADLEDDA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN ddydd Gwener, 4 Hydref 2019 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Alan James (Cadeirydd) a Joe Welch

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (HB)

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston a Graham Timms a Phennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW).

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd cworwm ar gyfer y pwyllgor hwn ond cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol i barhau ar sail anffurfiol.

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

#### **3 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

#### **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2019.

Eitem 5 - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – roedd y Pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch y Panel yn cyhoeddi ei lythyrau i awdurdodau lleol a oedd yn ymdrin â materion parhaus yn ymwneud â chyflogau prif swyddogion unigol. Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ymateb y Panel sef ei fod bellach yn cyhoeddi'r penderfyniad ond nid y llythyrau, fel ag yr arferai ei wneud yn y gorffennol. Roedd y Panel hefyd wedi cadarnhau y byddai ei rôl statudol ar gyfer prif swyddogion yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

***PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2019 fel cofnod cywir.***

## **5 HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AELODAU**

Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd eu bod yn profi i weld os oes modd defnyddio'r system iTrent i gofnodi ac adrodd ar holl gofnodion hyfforddiant y cynghorwyr. Ar hyn o bryd roedd hyfforddiant yn cael ei drefnu'n uniongyrchol gan y gwasanaethau a oedd yn gyfrifol am y pwnc ac felly roedd cadw cofnodion yn heriol iawn.

Cytunodd yr aelodau y byddai'n fuddiol i gael yr holl wybodaeth ar un system hygyrch y gellir ei defnyddio i lunio adroddiadau ar gyfer y grwpiau gwleidyddol ac aelodau unigol ar yr hyfforddiant sydd wedi'i gynnal, ac unrhyw hyfforddiant gorfodol arall heb ei gyflawni.

Wrth wneud hyfforddiant Cynllunio'n orfodol i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, holodd yr aelodau am y cyfyngiadau ward aml-aelod ar aelodaeth – lle dim ond un cynghorydd, mewn ward a gynrychiolir gan fwy nag un cynghorydd, all fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r rheoliadau hyn a oedd wedi'u rhwymo mewn cyfraith, er cytunodd y Rheolwr eu bod yn broblem yn Sir Ddinbych.

Roedd yr aelodau o'r farn bod awdurdodau eraill hefyd yn cael problemau tebyg ac fe wnaethant awgrymu bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru er mwyn adolygu'r broses.

O ran e-ddysgu, esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod y wefan a'r modiwlau e-ddysgu cenedlaethol yn anodd i'w defnyddio ar ddyfeisiau symudol megis iPads yr aelodau ac roedd angen diweddarau llawer iawn o'r modiwlau. Dywedodd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydlynu'r gwaith yr oedd awdurdodau lleol yn ei wneud i ddiweddarau'r modiwlau hyfforddiant ac roedd y gwaith i wella'r wefan e-ddysgu yn datblygu.

Roedd Sir Ddinbych wedi gwirfoddoli i ddiweddarau modiwl ar faterion 'cydraddoldeb' a dywedodd y Cynghorwyr Irving a Welch y byddent yn fodlon profi'r modiwl fel defnyddwyr pan oedd yn barod.

***PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.***

## **6 DIOGELWCH PERSONOL CYNGHORWYR**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) ar ddiogelwch personol i gynghorwyr ac roedd wedi casglu gwybodaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar ganllawiau diogelwch personol yn benodol i Gynghorwyr.



Nododd yr adroddiad y gallai gweithio ar eu pen eu hunain beri neu gynyddu risgiau i gynghorwyr, megis cynnal cymorthfeydd ar eu pen eu hunain mewn adeilad sydd fel arall yn wag neu ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod gan y Cyngor weithdrefnau i weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ar y Fewnrwyd sydd yn berthnasol i staff ac aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Welch ei fod wedi derbyn negeseuon digymell ar Whatsapp a thrafododd yr aelod sut y gallai ymateb i negeseuon Facebook arwain atynt yn cael eu hystyried yn 'ffrind' a allai achosi anawsterau wrth iddynt ymgymryd â'u rolau fel cynghorwyr.

***PENDERFYNWYD dosbarthu'r adroddiad i'r holl aelodau er gwybodaeth a gofyn i TGCh ystyried darparu arweiniad i aelodau mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a'r dechnoleg a ddefnyddir gan gynghorwyr.***

## **7 CYD GRAFFU - DIWEDDARIAD**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddarau'r Pwyllgor ar gynnydd y trefniadau cyd-graffu oedd ar waith i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Comisiynwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor er mwyn darparu trosolwg cynnar o'r trefniadau cyd-graffu.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi a chyflwyno ym mis Chwefror ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Craffu newydd.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor ym mis Mai. Etholwyd y Cynghorydd Brian Cossey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn Gadeirydd ac fe etholwyd y Cynghorydd Graham Timms o Gyngor Sir Ddinbych yn Is-Gadeirydd.
- Bu i'r Cydbwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019 y BGC a'i dri maes blaenoriaeth, sef lles meddyliol, ymrymuso'r gymuned a chadernid amgylcheddol.
- Gohiriwyd cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi gan nad oedd y sefydliad arweiniol ar gyfer y maes blaenoriaeth cadernid amgylcheddol ar gael.

Cytunodd yr aelodau y byddai diweddariad o weithgareddau Craffu'r BGC yng nghyfarfodydd y Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol yn fuddiol.

***PENDERFYNWYD bod diweddariad ar drefniadau'r Cydbwyllgor Craffu yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.***

## **8 TREFNIADAU AR GYFER CRAFFU AR FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw i annerch y Pwyllgor ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg cryno o'r Bwrdd a datblygiad y trefniadau craffu i sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei ddal yn gyfrifol drwy ddefnyddio trefniadau craffu llywodraeth leol.

***PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn gwahodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod datblygiad trefniadau craffu ar gyfer y cydbwyllgor rhanbarthol hwn.***

## **9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Nododd yr aelodau'r eitemau a ychwanegwyd i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol yn ystod y cyfarfod ac ychwanegu diweddariad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) i'r rhaglen.

***PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.***

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	2 Hydref 2020
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	Richard Mainon (Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol) Gary Williams (Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd)
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Gary Williams
<b>Teitl</b>	Cynllun Adferiad ar gyfer Trefniadau Democrataidd

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynllun adferiad ar gyfer trefniadau democrataidd y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1. I roi gwybodaeth i aelodau o'r pwyllgor sy'n ymwneud ag ailddechrau'r prosesau democrataidd a rhoi cyfle iddynt archwilio a thrafod y cynigion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod aelodau yn ystyried ac yn craffu ar y cynllun adferiad ar gyfer trefniadau democrataidd fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Cafodd pandemig Coronafeirws a'r cyfnod clo a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020 effaith uniongyrchol ar y ffordd roedd y Cyngor yn gallu gwneud penderfyniadau a chynnal ei brosesau democrataidd. Cyfarfod y pwyllgor ffurfiol olaf cyn y cyfnod clo oedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 12 Mawrth 2020. Bryd hynny, nid oedd yna ddarpariaeth gyfreithiol er

mwyn cynnal cyfarfod ffurfiol un o bwyllgorau'r Cyngor o bell yn gyfan gwbl.

- 4.2. Cafodd aelodau wybod, yn absenoldeb gallu cynnal cyfarfodydd ffurfiol, byddai'r Cyngor yn dibynnu ar bwerau dirprwyedig brys a ddarparwyd gan y gyfraith a'n cyfansoddiad i wneud penderfyniadau brys ar sail busnes critigol. Dim ond dwywaith y bu angen defnyddio'r broses hon i wneud penderfyniadau.
- 4.3. Fe luniodd Llywodraeth Cymru reoliadau, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, (y Rheoliadau) o dan bwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddf Coronafeirws 2020. Daeth y Rheoliadau i rym ar 22 Ebrill 2020.
- 4.4. Newidiodd y Rheoliadau'r gyfraith sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol dros dro er mwyn caniatáu cyfarfodydd o bell. Fe wnaethant hefyd gael gwared ar y gofyniad i wneud cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Roedd maint yr ymateb i'r pandemig yn golygu bod adnoddau'r Cyngor, yn cynnwys nifer o staff a gafodd eu hadleoli i swyddi newydd, yn canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng. Penderfynwyd y byddai cyfarfodydd yn ailddechrau ar sail busnes critigol er mwyn gwneud penderfyniadau hanfodol.
- 4.5. Roedd yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol yn awyddus i sicrhau fod pob aelod a'u pleidiau gwleidyddol yn cael y cyfle i gael gwybod am y cynnydd o ran yr ymateb i'r argyfwng ac i roi sylw a holi Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth ar gynigion a ddygwyd ymlaen. Er mwyn parhau i ymgysylltu ag aelodau etholedig ac i ymgynghori â grwpiau gwleidyddol ar benderfyniadau allweddol, cynhaliwyd cyfarfodydd arweinwyr grŵp yn wythnosol. Yn ychwanegol, darparwyd cyfleusterau cyfarfodydd o bell i'r pleidiau gwleidyddol er mwyn iddynt allu cwrdd i drafod materion perthnasol.

- 4.6. Fe ailgychwynnwyd cyfarfodydd ffurfiol yn raddol, ac fe roddwyd blaenoriaeth i'r cyfarfodydd hynny ble roedd angen gwneud penderfyniadau critigol i fusnes.
- 4.7. Parhaodd y Cabinet i gyfarfod ar sail anffurfiol yn rheolaidd cyn i'r Rheoliadau gael eu cyhoeddi. Cafodd y Cabinet gyfarfod ffurfiol o bell ar 26 Mai ac mae wedi parhau i gwrdd yn ffurfiol bob mis ers hynny. Cafodd y Pwyllgor Cynllunio gyfarfod ffurfiol ar 17 Mehefin ac mae wedi parhau i gyfarfod o bell ers hynny. Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio gyfarfod ar 8 Gorffennaf ac mae wedi parhau i gynnal y cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu. Yn ychwanegol, fe ailgychwynnodd y gwrandawiadau trwyddedu ym mis Awst. Ar 3 Medi, cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, gan olygu fod pob pwyllgor wedi cael cyfarfod ffurfiol.
- 4.8. Mae'r system cyfarfod o bell y mae'r Cyngor wedi ei ddefnyddio, Cisco Webex wedi darparu plattform er mwyn gallu cynnal y cyfarfodydd yma. Ni fu modd i'r Cyngor gynnal y cyfarfodydd yma'n gyhoeddus fel sy'n ofynnol gan Safonau Iaith Gymraeg i gynnal pob cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog. Nid yw system Webex yn galluogi cyfieithu ar y pryd. Er mwyn gallu cael arsylwad allanol yn y cyfarfodydd, gwahoddwyd gohebydd democratiaeth leol i bob cyfarfod ffurfiol, yn ogystal â Swyddfa Archwilio Cymru.
- 4.9. Zoom yw'r unig system sydd yn gallu darparu cyfleuster cyfieithu ar y pryd yn bresennol. Efallai fod aelodau yn gyfarwydd â'r system yma drwy eu defnydd cymdeithasol neu gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal gan gyrff eraill. Mae'r llywodraeth a rhywfaint o weithwyr TG proffesiynol wedi mynegi pryder ynglŷn â diogelwch y system. Mae cydweithwyr yng ngwasanaeth TGCh y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i ddatrys y materion hyn. Y gobaith yw y gellir cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog a'u gweddarlledu i'r cyhoedd o fis Medi trwy gyfrwng Zoom. Roedd angen gosod offer ychwanegol yn Siambr y Cyngor er mwyn hwyluso hyn, serch hynny, wrth ymgymryd â'r gwaith hwnnw, daeth peirianwyr ar draws problemau nad oedd modd eu rhagweld gydag offer arall oedd angen eu hailosod. Fe

fydd yr offer yma'n cael ei ailosod yn gynnar ym mis Hydref, a rhagwelir y bydd modd darlledu cyfarfodydd dwyieithog erbyn diwedd mis Hydref.

4.10. Mae'n debygol y bydd yr amgylchiadau sy'n gofyn bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell yn parhau am beth amser. Er mwyn i aelodau allu gweithredu mor effeithiol â phosibl o bell, maent yn cael gliniaduron er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd fideo a chyfeirio at bapurau cyfarfodydd ar ail sgrin. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i aelodau ar yr offer newydd hwn a'r system gyfarfod newydd.

4.11. Mae'r Cyngor, fel rhan o'r broses adfer, yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd o'r ffordd y mae wedi gallu gweithio yn ystod y pandemig, er mwyn sicrhau nad yw rhywfaint o'r cynnydd o ran hyblygrwydd ac ymatebolrwydd, sydd wedi bod yn angenrheidiol wrth wneud penderfyniadau, yn mynd yn angof. Mae'r Cyngor yn edrych ar sut y bydd yn gweithredu yn y dyfodol. Atgoffir yr aelodau bod y gallu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell wedi bod yn un o amcanion Llywodraeth Cymru ers peth amser. Roedd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd cyn y pandemig, yn cynnwys darpariaethau a fyddai, o'u gweithredu, yn ei gwneud yn orfodol i awdurdodau gael cyfleusterau ar waith i alluogi mynychu o bell. Mae'r profiad o'r pandemig wedi dangos bod cyfarfodydd o bell yn bosibl ac mae'n debygol y bydd deddfwriaeth yn gofyn am gyfleusterau i gynnal cyfarfodydd o bell yn cael ei phasio. Bydd hyn, yn ôl pob tebyg, yn arwain at gyfarfodydd hybrid lle mae rhai aelodau'n bresennol mewn lleoliad ffisegol, pan fo amgylchiadau'n caniatáu hynny, ac eraill yn mynychu o bell. Mae hyn yn debygol o ganiatáu mwy o bobl o oed gweithio, gyda chyfrifoldebau gofalu neu anabledau i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Byddai hefyd yn arwain at lai o deithio ar draws ein sir a fydd yn cefnogi rhaglen newid hinsawdd y Cyngor.

4.12. Bydd aelodau wedi derbyn holiadur yn ddiweddar yn gofyn am eu barn ar y ffordd y mae cyfarfodydd o bell wedi gweithio iddynt yn ystod y pandemig a'u hawgrymiadau ar sut i ddatblygu'r rhain yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn cael eu hystyried gan weithgor o aelodau.

4.13. Ynghlwm fel Atodiad 1 mae templed adroddiad ar y thema adfer ar gyfer trefniadau democrataidd sy'n darparu rhagor o fanylder o ran adfer cyfarfodydd ffurfiol i aelodau.

4.14. Bu i'r Rheoliadau alluogi awdurdodau i ohirio eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2020 ac fe wnaeth y Cyngor hynny. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyn 31 Rhagfyr 2020. Rhagwelir mai cyfarfod y Cyngor, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 13 Hydref, fydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni. Nododd y Rheoliadau hefyd y gallai awdurdodau benderfynu peidio â chynnal etholiadau i benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni ac fe allent yn hytrach ganiatáu i ddeiliaid presennol y swyddi barhau yn eu rolau hyd at fis Mai 2021. Awgrymir bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn parhau yn eu swyddi hyd at fis Mai 2021 er mwyn i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd newydd gael y cyfle i gael blwyddyn lawn yn y swydd.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae proses ddemocrataidd weithredol llawn er mwyn gallu gwneud penderfyniadau mewn modd cadarn a thryloyw gyda chraffu effeithiol yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor allu dilyn ei flaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae ailddechrau'r cyfarfodydd o bell wedi gosod byrdwn cynyddol ar staff democrataidd a TGCh i gefnogi cyfarfodydd unigol ac aelodau. Bu cost o £17K yn gysylltiedig â diweddarau offer yn Siambr y Cyngor a phrynu gliniaduron er mwyn i aelodau allu cynnal cyfarfodydd o bell ar gost o £28k.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae sesiwn briffio'r Cabinet a'r UDRh wedi derbyn copi o dempled adroddiad thema adferiad. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi ystyried y cynigion er mwyn ailddechrau'r cyfarfodydd Craffu a'u rhaglenni gwaith i'r dyfodol yng nghyd-destun yr adferiad.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Fel y nodwyd yn Adran 6 bu costau ychwanegol er mwyn hwyluso cyfarfodydd o bell. Nid yw'r costau hyn wedi bod yn gymwys am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru gan eu bod o'r farn y byddai'r buddsoddiad hwn wedi gorfod digwydd beth bynnag. Gobeithir gallu cadw'r gwariant o fewn adnoddau presennol. Ar ddiwedd y flwyddyn, fel pob blwyddyn arall, caiff unrhyw orwariant a wneir ar wasanaethau ei ariannu trwy danwariant ar wasanaethau eraill neu, yn y pen draw, trwy dynnu arian o Gronfeydd Wrth Gefn sydd heb eu clustnodi. Rhoddir adroddiadau misol i'r Cabinet am y sefyllfa gyffredinol.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae yna risg bod cyfarfodydd o bell angen mwy o adnoddau o ran gwasanaethau democrataidd a chefnogaeth TGCh. Gellir lliniaru ar hyn drwy roi hyfforddiant i aelodau am weithrediad y system berthnasol. Mae yna berygl y gallai diffyg mewn technoleg megis colli cysylltiad rhyngwyd amharu ar gyfarfodydd. Y risg o beidio â gweithredu mesurau cyfarfodydd o bell yn yr amgylchiadau presennol yw y byddai angen gwneud penderfyniadau heb drosolwg a her democrataidd rheolaidd, sef nodwedd o broses lywodraethu da.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Nid oes angen penderfyniad.





Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Report to</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Date of meeting</b>	<b>2<sup>il</sup> Hydref 2020</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu /Rhian Evans, Cydlynnydd Craffu</b>
<b>Cyflwynwyd gan</b>	<b>Y Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu)</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor 2019/2020</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 I gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar eu gweithgareddau yn ystod 2019/20.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

- 2.1 I gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar eu gweithgareddau yn ystod 2019/20 i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol ar gyfer cymeradwyaeth.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2019/20 ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gosod amod y bydd Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

- 4.2 Mae Adroddiad Blynyddol eleni wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'n rhoi cyflwyniad byr i'r darllenwr ynghylch beth yw craffu a sut mae craffu'n gweithredu, ochr yn ochr â throsolwg o'r gwaith y mae pwyllgorau a'u haelodau wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall preswylwyr gyfranogi a chyfrannu at y broses craffu. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr adroddiad ei gyfieithu a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.
- 4.3 Mae'r adroddiad yn amlinellu rôl bwysig y Pwyllgor Craffu i gefnogi gwaith y Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys monitro rheolaidd o ddarpariaeth y Cynllun.
- 4.4 Yn ystod 2019/20, mae'r Pwyllgor Craffu wedi cynnal cymysgedd o waith craffu cyn gwneud penderfyniadau, ac ar ôl eu gwneud, gyda phwyllgorau unigol yn canolbwyntio eu gwaith ar nifer o feysydd penodol, fel perfformiad corfforaethol, effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau, a budd cymunedol ac economaidd. Mae modd dod o hyd i'r pynciau sydd wedi'u harchwilio gan y Pwyllgor Craffu yn yr adrannau ar y pwyllgorau unigol yn yr adroddiad sy'n amgaeedig. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu i gefnogi darpariaeth blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac, yn y pendraw, gwireddu ei Gynllun Corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwahoddwyd nifer o sefydliadau allanol neu bartner i gyfarfod gyda phwyllgorau i drafod meysydd o ddiddordeb neu bryder cyffredin.
- 4.5 Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog preswylwyr i ryngweithio â Chraffu'n parhau i fod yn her i Sir Ddinbych, fel manau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, derbyniwyd dau gais gan breswylwyr neu sefydliadau allanol yn awgrymu pynciau a allai elwa o sylw'r Pwyllgor Craffu, ac mae'r ddau ohonynt wedi'u nodi yn yr adroddiad. Gwnaethpwyd y ceisiadau hyn yn defnyddio'r 'Ffurflen Cais Craffu' sydd ar gael ar wefan y Cyngor ac mae copi wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd y Pwyllgor Craffu yn parhau â'r drefn hon o annog y cyhoedd i awgrymu meysydd neu wasanaethau a allai elwa o ystyriaeth y Pwyllgor Craffu.
- 4.6 Er y gall annog preswylwyr i gymryd rhan yng ngweithrediadau craffu'n rheolaidd fod yn anodd iawn, os oes pwnc dadleuol neu er budd y cyhoedd lleol ar raglen y pwyllgor craffu, mae'r cyhoedd yn fwy na bodlon i ymgysylltu â chraffu a mynychu cyfarfodydd. Yn 2019/20 bu i'r Cyngor gyflwyno safleoedd arfaethedig fel lleoliadau posibl i'w datblygu'n safle tramwy ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr i'w

cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Denodd y rhain ddiddordeb y cyhoedd a gwrthwynebiad. Roedd nifer fawr yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y mater a rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor.

4.7 Wrth ystyried cais i'w graffu, boed y cais gan gynghorydd, swyddog neu aelod o'r cyhoedd, bydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn defnyddio'r meini prawf canlynol i bennu os yw'r eitem yn haeddu cael ei graffu:

- a yw'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd?
- oes gan Graffu'r gallu i ddylanwadu neu newid pethau?
- ydi'r gwaith yn gysylltiedig â gwasanaeth sy'n tanberfformio?
- ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol fawr?
- oes unrhyw un arall yn edrych arno?

Mae'r adroddiad ynghlwm yn cynnwys enghraifft o'r broses uchod, sydd yn cynnwys llwybrau amgen a awgrymir i ystyried pwnc os yw'r Grŵp yn penderfynu nad yw'n addas i gael ei archwilio gan y pwyllgor craffu.

4.8 Yn yr adroddiad sydd ynghlwm mae gwybodaeth am waith Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych a sefydlwyd i archwilio gwaith Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, yn ogystal â diweddariad ar waith y gweithgorau / grwpiau tasg a gorffen amrywiol sy'n gweithredu o dan nawdd Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych.

4.9 Mae'r pwyllgorau craffu wedi parhau â'r arfer o wahodd sefydliadau partner a chyrrff sector cyhoeddus eraill i'w cyfarfod i archwilio sut y gellir gwella gwasanaethau a chanlyniadau i breswylwyr drwy waith partneriaeth effeithiol. Yn ystod y flwyddyn mae cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar gyfer trafodaethau amrywiol.

4.10 Bu i bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau a roddwyd ar unigolion effeithio ar waith y Pwyllgor Craffu yn ystod diwedd blwyddyn y cyngor 2019/20 a blwyddyn y cyngor 2020/21, gyda chyfarfodydd yn cael eu canslo a phenderfyniadau, nad oeddent yn rhai brys, yn cael eu gohirio. Bydd busnes y Pwyllgor Craffu yn ailddechrau yn ystod yr hydref 2020 drwy archwilio cynlluniau adfer COVID-19 holl wasanaethau'r Cyngor.

Bydd hyn yn galluogi pwyllgorau i siapio eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol drwy gynnwys cydbwysedd priodol o waith adfer ar ôl y pandemig a'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol, gyda phynciau perthnasol a ohiriwyd o'r cyfarfodydd hynny a gafodd eu canslo.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion ac o fewn y gyllideb.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o'r gwaith rheolaidd o anfon adroddiadau pwyllgorau at gynghorwyr sir ac eraill, felly nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'i gyhoeddi. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyfieithu a bydd ar gael ar fewnwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau tasg a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio unrhyw benderfyniad na newid i bolisi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno er mwyn rhoi gwybod i gynghorwyr a thrigolion am waith y Pwyllgorau Craffu yn ystod y deuddeng mis blaenorol yn unig ac fel modd o amlinellu meysydd gwaith posib' yn y dyfodol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod, bydd unrhyw gostau sy'n berthnasol i gynhyrchu'r Adroddiad yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau bresennol, fel y bydd unrhyw gostau sy'n codi wrth sefydlu grwpiau tasg a gorffen.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau wedi'u canfod ynghlwm ag ystyried Adroddiad Blyneddol y Pwyllgor.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Adran 7.4.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn datgan ei bod yn rhaid i Bwyllgorau Archwilio'r Cyngor adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol ac ar ddulliau gweithio diwygiedig os yw hynny'n briodol.

11.2 Mae dyletswyddau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â Chraffu wedi'u nodi ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag





**ANNUAL REPORT OF THE SCRUTINY COMMITTEES**

**2019 - 2020**

# CONTENTS

	Page
What is Scrutiny?	3
Scrutiny in Action	3
How does Scrutiny work in Denbighshire?	3 - 4
Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group	4 - 5
<b>Scrutiny during 2019/20</b>	<b>6</b>
Scrutiny and the Corporate Priorities 2019/20	6 -14
Performance Scrutiny Committee	15 - 16
Partnerships Scrutiny Committee	17 -18
Communities Scrutiny Committee	19 -20
Joint Overview and Scrutiny Committee for the Conwy and Denbighshire Public Services Board	21
Task and Finish Groups	23
Additional work	24
<b>Audit Wales reports</b>	<b>25</b>
<b>Scrutiny Requests from Residents</b>	<b>26</b>
How can residents participate in Scrutiny?	27 - 28
Scrutiny request form	29

## What is scrutiny?

Scrutiny is a key component of the Council's political structure. Many of the Council's important decisions are taken by Cabinet, a group of eight councillors to whom the County Council has given its powers to take decisions relating to policies and procedures on its behalf.

The term 'scrutiny' derives from the Latin word 'scrutinium/scrutari' which means 'to search'. In the context of local government Scrutiny's role is to research and examine policies and decisions to assess whether they could be improved or strengthened to deliver better services for residents and visitors to Denbighshire. Scrutiny is often referred to as the Council's 'critical friend', its purpose is to provide constructive criticism in order to continually seek improvements to services, secure better decisions and realise better outcomes.

Scrutiny committees cannot take decisions, but they can influence policies, review decisions taken by Cabinet and Officers, make recommendations, and examine a range of topics that affect residents, local businesses and visitors to the county.

## Scrutiny in Action

Scrutiny should at all times work in an impartial way. It should not be influenced by party politics, its focus should be on improving the lives of residents and on securing better outcomes for the county area.

Whilst Scrutiny Committees have an active role to play in developing policies and reviewing performance. They also have the responsibility of holding the Cabinet and other decision makers to account on the decisions they make.




If a Scrutiny Committee believes that an issue should be looked at in more depth before a decision is implemented, it can request a review under the "Call-In" procedure which will allow Scrutiny Committees to formulate alternative proposals.

## How does scrutiny work in Denbighshire?

Scrutiny acts as a 'critical friend' to the Council's leadership, driving improvements not only to services delivered by the Council itself, but to services delivered in partnership with other public services in the area by enabling the concerns of the public to be heard.

The Council's scrutiny work is undertaken by three thematic, cross-cutting scrutiny Committees, meeting approximately every 7 weeks and comprising of 11 members from all political parties/groups on the Council.

The three committees in Denbighshire are:

-  Communities Scrutiny Committee
-  Partnerships Scrutiny Committee
-  Performance Scrutiny Committee

When examining education matters representatives appointed by the Church in Wales and the Catholic Church, along with representatives elected by parent governors, also serve on the committees. When dealing with education matters these representatives have full voting rights. All the parent governor representative posts on Scrutiny are currently vacant. If you are a parent governor at one of the Council's primary, secondary or special schools, and would be interested in representing your sector on Scrutiny please get in touch with us (contact details can be found in the 'How residents can participate in Scrutiny' section towards the end of this report).

## Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group

The Chairs and Vice-Chairs of the three scrutiny committees serve on the Council's Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group (SCVCG) along with the Chair and Vice-Chair of the Corporate Governance & Audit Committee and the Chair of the Democratic Services Committee. This Group acts as a co-ordinating group for the committees' work. Requests for items to be considered by a scrutiny committee, be they from county councillors, Council officers, residents, businesses or the general public are examined by this Group to determine whether they meet the criteria for Scrutiny, or whether they would benefit from being considered by another forum or group. The flowchart on the following page illustrates the criteria and process for determining whether a topic is suitable for scrutiny.

During 2019/20 a total of 21 requests for items to be scrutinised were considered by the Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group. Of these 21 requests:

- ❖ 10 were submitted by county councillors
- ❖ 9 by officers
- ❖ 2 by residents/general public (a number of the requests submitted by county councillors were done so in response to concerns raised with them by their constituents)

The Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group ensures that the scrutiny committees' work programmes are balanced and that subjects are not duplicated. It also has a role to play in supporting and strengthening the Council's scrutiny function through the identification of best practice and helping to implement any necessary changes to scrutiny practices.

## Consideration of a topic's suitability for scrutiny

### Proposal Form/Request received

(careful consideration given to reasons for request)

### Does it stand up to the PAPER test?

- **P**ublic interest – is the matter of concern to residents?
- **A**bility to have an impact – can Scrutiny influence and change things?
- **P**erformance – is it an underperforming area or service?
- **E**xtent – does it affect a large number of residents or a large geographic area?
- **R**eplication – is anyone else looking at it?

YES

NO

No further action required by scrutiny committee. Refer elsewhere or request information report?

- Determine the desired outcome(s)
- Decide on the scope and extent of the scrutiny work required and the most appropriate method to undertake it (i.e. committee report, task and finish group inquiry, or link member etc.)
- If task and finish route chosen, determine the timescale for any inquiry, who will be involved, research requirements, expert advice and witnesses required, reporting arrangements etc.

## Scrutiny's work during 2019/20

As part of their work during the 2019/20 Council year the Council's three Scrutiny Committees have focussed on a number of subjects with a view to supporting the Council to deliver its corporate priorities. The Corporate Priorities are:

- 🌍 **Housing:** ensuring that everyone is supported to live in homes that meet their needs
- 🌍 **Connected Communities:** making sure communities are connected and have access to goods and services locally, online and through good transport links
- 🌍 **Resilient Communities:** making sure that the Council works with people and communities to build independence and resilience
- 🌍 **Environment:** securing an attractive and protected environment which supports well-being and economic prosperity; and
- 🌍 **Young People:** creating a county where younger people will want to live and work and have the skills to do so

By adopting this approach Scrutiny's objective is to improve services to residents and the quality of their daily lives.

Denbighshire County Council's services touch the lives of all of the county's residents, be they young or old, hence the reason why the scrutiny committees have during the course of the year examined the Council's performance in delivering its services. In addition, as service delivery models evolve to meet changing needs, Scrutiny has been involved with shaping new ways of delivering services for the future.

### **Scrutiny and the Council's Corporate Priorities during 2019/20**

Below and on the following pages is an overview of how the Council's scrutiny committees have supported the authority's work and aspirations of delivering its corporate priorities during the year:

#### **Housing: Everyone is supported to live in homes that meet their need**

Through its work over a number of years Scrutiny has strived to support the Council to deliver this particular priority. During 2019/20 it concluded the work it started some years previously on monitoring the effectiveness of the Council's regulatory work in ensuring that Caravan and Holiday Parks across the county complied with their planning and licensing conditions. Concerns had been raised that some owners may not have been fully complying with the conditions attached to their

planning and licensing permissions and may therefore be permitting people to reside in caravans on their sites on a permanent basis exposing them, particularly the more vulnerable to some significant risks through not properly meeting their housing needs. Through effective working over a number of years with park proprietors and managers, a level of mutual trust was forged between them and the Council which resulted in this situation improving. Now that Scrutiny is satisfied that the regulation of caravan and holiday parks is effectively managed it has agreed that future monitoring will be done by officers as part of their routine work.

Similarly, the number of Houses in Multiple Occupation (HMO) has been a long-standing problem in the county, particularly in its most deprived areas. Back in 2010 the Council introduced an Additional Licensing Scheme for Houses in Multiple Occupation in specific areas of Rhyl. This scheme complemented the mandatory HMO licensing scheme. The purpose of the additional scheme was to ensure that a large number of houses in multiple occupation complied with specific requirements before they could be licensed for habitation. This ensured that individuals and families were provided with safe, comfortable accommodation that met their needs. Due to the success of this scheme in Rhyl it was extended for a further 5-year period from 2015 onwards. In 2020 the Council was keen to continue its operation in Rhyl, but based on its success there to extend it to other towns in the county, namely Prestatyn, Denbigh and Llangollen. Both North Wales Police and North Wales Fire and Rescue Service were supportive of the proposals and scrutiny was consulted on them in early 2020. Scrutiny was generally in favour of the types of houses to be included in the revised scheme and of its extension to other towns in the county and recommended that its contents should be consulted upon before being presented to Cabinet for approval.

Whilst the Council strives to make sure that all residents live in houses that meet their needs, sadly not everybody in the county has a roof over their head. The Council has a duty to ensure it safeguards all vulnerable people, be they homeless or at risk of losing their home. Amid concerns that some individuals and families found themselves being temporarily housed in hotels or in bed and breakfast accommodation Scrutiny examined the Council's procedures and its capacity to safeguard and meet the needs of the homeless. In acknowledging the complexities involved with homelessness it endorsed the Council's decision to adopt a corporate approach towards homelessness and to include addressing the issue of homelessness in its Housing Strategy. Scrutiny will continue to monitor the development and approval of the draft Housing and Homelessness Strategy during the forthcoming year.

There is a big difference between allocating houses to individuals and families and actually meeting their needs, ensuring that they live in accommodation that they can happily refer to as their home. During the year Scrutiny met with representatives from the Registered Social Landlords (RSLs) sector in Denbighshire to examine the

effectiveness of the Single Access Route to Housing (SARTH) application process in meeting people's needs and securing a suitable home for them and their families. The SARTH process aims to help people to secure a home via one single application that is shared with a number of housing providers at the same time, saving time and stress for the applicant.

A home is much more than a property to live in, a home needs to meet and suit the person's way of life. Finding a suitable location to meet the needs of the gypsy and traveller community, without having a detrimental affect on their lives and on the lives of other residents is another matter which Scrutiny has examined during recent months, specifically potential sites for inclusion in the draft Local Development Plan (LDP) for development as a transit site. A number of sites were proposed for inclusion in the draft LDP but Scrutiny asked for consultation to be undertaken with the gypsy and traveller community on the suitability of these sites to meet their needs prior to Cabinet considering their inclusion in the draft LDP. Scrutiny also asked Cabinet to write in the strongest possible terms to the Welsh Government seeking clarity on why local authorities could not work together to develop an agreed number of transit sites in North Wales rather than each county council being obliged to provide one in their area, as having six transit sites in the region seemed disproportionate in comparison to the number of illegal encampments experienced annually in the region.

**Connected Communities: Communities are connected and have access to goods and services locally, on line and through good transport links**

Keeping communities, businesses and people connected with one another is crucial in order to support social interaction, encourage economic growth and build strong local resilience networks. Communities are connected on a number of different levels, by roads and transport links, links between various individuals, groups and businesses that live and operate within the communities, as well as by communication links. Connectivity is one of the 21<sup>st</sup> Century's 'buzz words'. Therefore, securing the availability of effective digital platforms as well as fit for purpose physical infrastructures forms a crucial part of ensuring that communities are connected. Elected members and residents have had concerns for a number of years about the availability of good, reliable, and fast broadband services across the county. The Council regards the availability of fast, effective broadband as a crucial component in order to deliver economic growth and prosperity to the area and its residents, and as an essential tool to assist the county's pupils and students in their studies to ensure they realise their full potential. Whilst acknowledging that the quality and availability of fast broadband across the county had improved in recent years Scrutiny felt that more still needs to be done by central government to ensure that every household and business in the county can access effective broadband services if they want them. At present they felt that some areas of the county, mainly in rural areas, were being left behind and as a result businesses were at a



disadvantage when competing on the open market, as were pupils who are working towards qualifications that will shape their future career prospects. Scrutiny wrote to the First Minister of Wales and other Welsh Government Ministers outlining their concerns and seeking them to address this inequality urgently as the availability of reliable broadband should be viewed as an everyday necessity in 21<sup>st</sup> Century Wales, similar to having access to water and electricity. The letter was also copied to WG Commissioners as it was felt that the continued lack of reliable broadband for all undermined the principles of equality for all, and the goals set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Scrutiny was extremely pleased that the County's Library Service continued its strong performance against the national performance targets. It was also encouraged, having examined the delivery of the Service's local Library Strategy, to see that the county's libraries were at the heart of their communities helping to deliver a range of Council and public services which residents wanted in their own communities. In future years, it is hoped that the county's libraries will work closely with the new Joint Archives Service with Flintshire County Council to deliver a comprehensive archives service electronically to residents and visitors alike. Following scrutiny of the joint service's proposal to secure funding to build a bespoke archives hub in Mold, and an examination of the services that would be delivered in libraries and other outlets in both counties, Scrutiny supported the proposal's objectives. During the forthcoming year scrutiny will continue to monitor the Service's development.

As mentioned the Joint Archives Service aims to deliver excellent services to residents and visitors alike. Once tourists enter the area Scrutiny is keen that they are enticed off the major trunk roads to explore all four corners of the county and the multitude of attractions and activities on offer in Denbighshire. With this in mind it has requested a working group of officers and members to develop a tourism signage strategy for the county, one that will supplement the tourist information signs already situated on the trunk roads, and via a series of well-designed signs guide them through the county and its tourism offer. This should help boost the county's economy. Scrutiny will in forthcoming months be keeping a close eye on the strategy's development.

## **Resilient Communities: the Council works with people and communities to build independence and resilience**

Cuts to local authority funding has meant that the Council in recent years has had to adapt and devise alternative ways to deliver its services. The aim of this approach is to build-up resilience within local communities to support their residents, with a view to only relying on public services for major intervention work at a time of crisis. The resilience of our local communities was tested and came to the fore during the recent Coronavirus pandemic crisis. Lessons learnt from the approach taken towards handling that crisis will undoubtedly be examined by Scrutiny in the months and years that lie ahead, but during 2019/20 scrutiny committees examined various aspects of the Council's efforts to build communities' resilience to deal with day to day and longer term challenges.

Yn 2017 bu'r Panel yn ymweld â phob un o'r 22 prif gyngor, gan gyfarfod nifer o aelodau a swyddogion. Ers hynny, rydym wedi cwrdd â phob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac wedi parhau â'r rhaglen o gyfarfodydd gyda Chynghorwyr a Clercod Cynghorau Cymuned a Thref. Yn yr Adroddiad Blynyddol drafft hwn, rydym parhau i adlewyrchu rhai o'r materion sydd wedi codi yn ystod ein hymweliadau. Rydym wedi dweud cyn hyn nad yw taliadau i gynghorwyr wedi codi mor gyflym â'r cymharydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan y Panel i sefydlu lefel briodol o gydnabyddiaeth ariannol yn sgil pwysau ar wariant cyhoeddus. Gellir gweld effaith hyn yn y tablau a'r graffiau yn adran 3. Bydd papur manylach ar gael ar ein gwefan.

Yn ein Hadroddiad Blynyddol drafft roeddem yn cynnig cynnydd yng nghyflog sylfaenol aelodau etholedig y prif gynghorau ac aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol er mwyn ystyried y gyfradd chwyddiant gyfredol. Bydd hyn yn helpu i atal erydiad pellach. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno, at ei gilydd, â'r rhesymau dros y cynnydd ac yn cytuno nad oedd taliadau i aelodau etholedig wedi bod yn codi ar yr un raddfa â chostau byw. Rydym wedi penderfynu cadw at y cynigion a oedd yn ein Hadroddiad drafft. Rydym yn cydnabod y gall fod peth pryder ynghylch effaith ariannol y cynnydd hwn ar adeg pan fo llywodraeth leol yng Nghymru'n parhau i fod dan bwysau ariannol. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd ar un llaw a bod yn deg ag aelodau cynghorau lleol a chydabod bod lefel bresennol y taliadau yn golygu bod nifer ohonynt yn wynebu anawsterau ariannol. Fel yr ydym wedi dweud yn gyson, nid oes modd cael democratiaeth gynrychioladol heb gost. Dan yr amgylchiadau presennol rydym o'r farn bod y penderfyniadau a nodir yn yr Adroddiad hwn yn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw.

Roedd nifer o'r ymatebion a gafwyd yn sôn am faterion yn ymwneud â dyddiad gweithredu'r penderfyniadau ac â chodi treth ar rai o'r taliadau.

Roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu y dylai'r dyddiad gweithredu ddigwydd ar ôl cyfarfod blynyddol yr awdurdod. Mae safbwynt statudol y Panel yn hyn o beth yn glir. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod adroddiad blynyddol y Panel yn ymwneud â phob blwyddyn ariannol.

Er ein bod yn llwyr werthfawrogi'r pryderon a fynegwyd ynghylch trethu rhai o'r taliadau, nid yw'n fater sydd o fewn ein cylch gwaith i fynd ar drywydd hyn yn uniongyrchol. Rydym yn darparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o anfon sylwadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Rydym hefyd wedi cynghori awdurdodau i anfon sylwadau yn unigol.

Daeth cyfnod Julie May, a fu'n aelod o'r panel ers 2016, i ben ar 31 Rhagfyr. Hoffwn gofnodi fy niolech iddi am ei gwaith a'i hymroddiad. Roedd hi'n aelod gwerthfawr a bydd yn cael ei cholli. Hefyd, fy niolech i'n hysgrifenyddiaeth sy'n cyflawni'r holl dasgau gweinyddol na fyddai modd inni weithredu hebbynt.

John Bader  
Cadeirydd

Aelodau'r Panel

John Bader – Cadeirydd  
Gregory Owens – Is-gadeirydd  
Stephen Mulholland

Julie May  
Saz Willey  
Roger Symonds

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau ar y wefan: <http://pacga.llyw.cymru>

## Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau	6
2. Tudalen Grynodedb yr Adroddiad Blynyddol	8
3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gynghorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch-gyflogau a Chyflogau Dinesig	9
4. Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu	24
5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau	25
6. Hawl i Absenoldeb Teuluol	26
7. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	27
8. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru	31
9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub	34
10. Ad-dalu Costau Gofal	36
11. Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch-gyflogau	37
12. Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth pan fo'r Aelod ar Fusnes Swyddogol	39
13. Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned	41
14. Cydymffurfio â Gofynion y Panel	50
15. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gynghorau	51
Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2019/20	53
Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer	60
Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau	75
Atodiad 4: Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol – Gofynion y Panel	77
Atodiad 5: Crynodeb o'r penderfyniadau newydd ac wedi'u diweddarau sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn	79



## Cyflwyniad



**Dyma ddeuddegfed Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol, a'r nawfed i gael ei gyhoeddi o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd).**

1. Fel gyda holl Adroddiadau Blynyddol y Panel, mae'r penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau'n seiliedig ar egwyddorion a nodir yn Adran 1.
2. Mae'r Panel wedi mynegi ei farn yn gyson na ellir cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraethu lleol heb fynd i gostau. Mae aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys aelodau cyfetholedig ac aelodau penodedig) yno i gynrychioli buddiannau pobl leol, llywodraethu cymunedau lleol, a sicrhau gwasanaethau cyhoeddus priodol sy'n cynnig gwerth am arian i drethdalwyr lleol trwy graffu effeithiol, y maent yn atebol amdano i'w cymuned. Mae'r rhain yn dasgau pwysig a sylweddol i aelodau'r awdurdodau perthnasol o fewn cylch gwaith y Panel. Mae taliadau i aelodau ar gael i annog amrywiaeth o bobl barod a galluog i fynd ati i lywodraethu'n lleol, trwy'r rolau y cânt eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol iddynt.
3. Wrth bennu lefel y taliadau i aelodau awdurdodau lleol, mae'r Panel yn ceisio cydymffurfio ag egwyddor 'derbynioldeb' trwy sicrhau nad yw'r rhain 'mor uchel fel bod angen dargyfeirio adnoddau sylweddol o flaenoriaethau allweddol cyngor'. Ond mae Adran 142(8) o'r Mesur yn fwy eglur ar 'fforddiadwyedd' gan nodi "wrth osod swm<sup>1</sup> ... rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol". Mae ateb gofyniad y Mesur o ran fforddiadwyedd wedi bod yn her i'r Panel, yn enwedig oherwydd diddordeb y cyhoedd mewn taliadau a wneir i aelodau. Mae'r Panel yn cydnabod bod mater fforddiadwyedd – mewn perthynas â chyllidebau gwasanaethau awdurdodau perthnasol ac mewn perthynas ag incwm gwario'r etholwyr – yn debygol o gael effaith ar ganfyddiad y cyhoedd am unrhyw godiadau mewn taliadau i aelodau. Felly, mae'n fater o gydbwyso materion fforddiadwyedd a chanfyddiad y cyhoedd, gan drin yr aelodau'n deg am eu hamser, eu gwerth a'u cyfrifoldeb.
4. Yn 2009, cysylltodd y Panel daliadau'r aelodau ag enillion gros canolrifol yr holl weithwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Pennwyd y cyflog sylfaenol ar y pryd ar lefel a oedd yn dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru Gyfan, ac fe bennwyd uwch-gyflogau ar lefelau a oedd yn lluosrifau o'r cyflog canolrifol blynyddol hwn. Wrth bennu'r cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod yna gyfraniad di-dâl i wasanaeth cyhoeddus.
5. Mae'r cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn benodol wedi golygu na yw'r cysylltiad ag enillion cyfartalog yng Nghymru wedi

cael ei gynnal. Mae'r Panel o'r farn bod hyn wedi tanbristio gwerth aelodau etholedig. Er mwyn osgoi erydiad pellach mewn perthynas ag enillion cyfartalog mae'r Panel yn cynnig cynnydd o £350 yn y cyflog blynyddol sylfaenol i £14,218 (cynnydd o 2.5%).

6. O'r trafodaethau yn ystod ein hymweliadau â chynghorau mae'n amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Ymddengys fod rhai aelodau'n dal i fod yn gyndyn o hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i gefnogi eu gwaith, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu (gweler Atodiad 4 am newidiadau i'r gofynion cyhoeddi). Erfyniwn ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democratiaidd i gymryd camau i annog mwy o aelodau i ddefnyddio'r elfen hon o'n fframwaith a hwyluso'r broses o'i hawlio fel nad yw'r aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth hon gyda'r bwriad o annog mwy o aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio arni.
7. Mae'r Panel wedi parhau i gyfrannu lle bynnag y bo'n bosibl at wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru trwy ei benderfyniadau. Mae'r Panel yn cynhyrchu taflen ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o gynghorau. Rydym yn falch bod sawl prif gyngor wedi rhoi'r daflen hon at eu gwefannau. Hefyd, ers yr adroddiad diwethaf, rydym wedi cynhyrchu ffilm fer [Wyt ti wedi ystyried bod yn Gynghorydd yng Nghymru?](#)
8. Yn ystod 2019, fe wnaethom gwrdd â phob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) a phob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA). Mewn trafodaethau gydag aelodau, daeth yn amlwg fod yr ymrwymiad amser wedi cynyddu. Rydym wedi adlewyrchu hyn yn ein penderfyniadau, a bellach bydd y cyflogau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn seiliedig ar 44 o ddiwrnodau'r flwyddyn ac ar 22 diwrnod y flwyddyn ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.
9. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â chynghorau cymuned a thref, ac wedi cyfarfod â nifer fawr o grwpiau o gynrychiolwyr. O ganlyniad, rydym yn cynnig diwygio'n fframwaith ymhellach o ran cynghorau cymuned a thref. Mae'r penderfyniadau arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned a thref i'w gweld yn Adran 13.
10. Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 drwy fewnosod Adran 143A. Mae hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw brif gyngor neu awdurdod tân ac achub sy'n bwriadu newid cyflog ei Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn gyson â newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill. Mae Adran 143A hefyd yn galluogi'r Panel i ffurfio barn ynglŷn ag unrhyw beth yn Natganiad Polisi Tân awdurdod sy'n ymwneud â chyflog y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (fel arfer y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig neu'r Prif Swyddog Tân). Fe estynnodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 y cyfrifoldeb hwn, dros dro, i Brif Swyddogion prif awdurdodau. Mae'r swyddogaeth hon o eiddo'r Panel yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Caiff y ffordd y mae'r Panel yn defnyddio'r pŵer hwn ei nodi yn Adran 15 o'r Adroddiad hwn ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau i'r Panel a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

11. Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol mewn perthynas â newidiadau i gyflogau prif swyddogion prif gynghorau mae'r Panel wedi ymdrin â nifer o geisiadau bob blwyddyn. Gellir gweld penderfyniadau'r Panel dros y flwyddyn ddiwethaf yn Adran 15.
12. Un mater sydd wedi bod yn bwynt trafod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw camau'r cynghorau o ran yr adroddiadau y maent yn eu derbyn gan y Panel. Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol y Panel, rhaid i brif gynghorau gydymffurfio â'r gofynion statudol a gweithredu'r holl benderfyniadau perthnasol. Rhaid i'r swyddog priodol yn y cyngor roi camau ar waith er mwyn i bob aelod cymwys o'r cyngor gael taliadau fel y'u pennwyd gan y Panel. Ar hyn o bryd nid oes opsiynau ar gael o ran lefelau cydnabyddiaeth prif gynghorau sy'n gofyn am benderfyniad gan y cyngor llawn. Ni ellir amrywio lefelau'r taliadau y mae gan Aelodau hawl iddynt drwy bleidlais prif gyngor.
13. Dim ond aelod unigol all gyfathrebu'n ysgrifenedig â'r swyddog priodol os yw'n dymuno, *fel unigolyn*, gwrthod y cyfan neu ran o'r taliad y mae ganddo hawl i'w gael.
14. Nid yw'r ffordd y caiff adroddiad blynyddol y Panel ei dderbyn yn ffurfiol neu ei nodi gan y cyngor llawn yn fater sydd o fewn cylch gwaith statudol y Panel. Gall cyfansoddiadau unigol neu reolau sefydlog cynghorau amrywio o ran y materion y gellir eu cyflwyno i'r cyngor llawn i'w hystyried. Lle pob cyngor yw penderfynu sut y mae am reoli'r broses o dderbyn adroddiad y Panel, gan ofyn am gyngor eu swyddogion cyfreithiol lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, dylai pob aelod o'r cyngor a'r swyddogion ofalu na chaiff datganiadau camarweiniol eu gwneud na'u hadrodd yn y cyfryngau, yn enwedig awgrym bod Cyngor wedi penderfynu lleihau neu amrywio taliadau. Nid oes unrhyw bwerau sy'n caniatáu i brif gyngor gymryd camau o'r fath.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh>

# 1. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau

## Cynnal ymddiriedaeth a hyder

- 1.1 Mae gan ddinasyddion yr hawl i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd trwy goleddu'r gwerthoedd a'r foesege sy'n ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath. Mae'r egwyddorion hyn yn sylfaen i'r cyfraniad y mae gwaith y Panel a'i Fframwaith yn ei wneud tuag at gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

## Symrlwydd

- 1.2 Mae'r Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Panel allu cyfleu ei benderfyniadau yn effeithiol i bawb yr effeithir arnynt gan ei waith neu sydd â diddordeb ynddo.

## Cydnabyddiaeth ariannol

- 1.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliadau i aelodau o awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â'r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n cael eu hariannu o'r taliad. Mae'r Fframwaith yn rhoi taliadau ychwanegol i'r rhai y rhoddir mwy o gyfrifoldeb iddynt.

## Amrywiaeth

- 1.4 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth o awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel wastad yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud i annog y rhai a dangynrychiolir yn sylweddol i gyfranogi ar lefel awdurdod lleol.

## Atebolrwydd

- 1.5 Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i gael gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i neilltuo i roi cydnabyddiaeth ariannol i'r rhai a etholir, a benodir, neu a gyfetholir i wasanaethu er budd y cyhoedd. Mae'r Panel yn disgwyl bod pob prif gyngor yn trefnu bod gwybodaeth am weithgareddau ei aelodau a chydnabyddiaeth ariannol a roddir iddynt ar gael yn rhwydd ac yn briodol.

## Tegwch

- 1.6 Bydd yn bosibl cymhwyso'r fframwaith yn gyson i aelodau pob awdurdod lleol sydd o fewn cylch gwaith y Panel fel modd i sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn fforddiadwy ac yn gyffredinol dderbyniol.

## **Ansawdd**

- 1.7 Mae'r Panel yn cydnabod bod y cymysgedd cymhleth o ddyletswyddau llywodraethu, craffu a rheoleiddio sydd ar aelodau yn golygu bod yn rhaid iddynt ymgysylltu â phroses o wella ansawdd yn barhaus. Mae'r Panel yn disgwyl i aelodau ymgymryd â'r cyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdanynt mewn modd priodol.

## **Tryloywder**

- 1.8 Mae er budd y cyhoedd i sicrhau tryloywder cydnabyddiaeth ariannol aelodau. Mae rhai aelodau yn derbyn lefelau ychwanegol o gydnabyddiaeth ariannol am eu bod wedi'u hethol, neu eu penodi, i fwy nag un corff cyhoeddus. Mae'r fframwaith yn fodd i sicrhau bod gwybodaeth am yr holl gydnabyddiaeth ariannol y mae pob aelod yn ei chael ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

## **Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion**

- 1.9 Mae'r Panel yn cymhwyso'r egwyddorion hyn, sef tegwch, atebolrwydd a thryloywder, yn ei holl benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r holl awdurdodau sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol pan fo'n ofynnol i'r Panel wneud argymhellion mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i swyddogion cyflogedig yr awdurdodau hyn hefyd.

## 2. Tudalen Grynodedb yr Adroddiad Blynyddol

Math o Daliad	Math o Awdurdod			
	Prif Gyngor	Awdurdod Parc Cened-laethol	Awdurdod Tân ac Achub	Cyngor Tref a Chymuned
Cyflog Sylfaenol	tudalen 11	tudalen 27	tudalen 31	Amherthnasol
Uwch-rolau	tudalen 16	tudalen 27	tudalen 31	tudalen 43
Cadeiryddion Pwyllgorau	tudalen 16	tudalen 27	tudalen 31	Amherthnasol
Grwpiau Gwrthbleidiau	tudalen 16	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Penaethiaid a Dirprwyon Dinesig	tudalen 18	Amherthnasol	Amherthnasol	tudalen 45
Aelodau Llywyddol	tudalen 19	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Milltired	tudalen 39	tudalen 39	tudalen 39	tudalen 44
Costau Teithio Eraill	tudalen 39	tudalen 39	tudalen 39	tudalen 44
Costau Cynhaliath	tudalen 40	tudalen 40	tudalen 40	tudalen 44
Costau Gofal	tudalen 36	tudalen 36	tudalen 36	tudalen 45
Absenoldeb Teuluol	tudalen 26	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Absenoldeb oherwydd salwch	tudalen 37	tudalen 37	tudalen 37	Amherthnasol
Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu	tudalen 24	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Pensiwn	tudalen 25	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Aelodau Cyfetholedig	tudalen 34	tudalen 34	tudalen 34	Amherthnasol
Lwfansau Penodol neu Ychwanegol	tudalen 22	tudalen 28	tudalen 32	Amherthnasol
Taliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	tudalen 41
Digolledu am Golled Ariannol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	tudalen 44
Datganiad o Daliadau	tudalen 77	tudalen 89	tudalen 89	tudalen 89
Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol	tudalen 79	tudalen 87	tudalen 87	Amherthnasol
Cyflogau Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Swyddogion	tudalen 51	Amherthnasol	tudalen 51	Amherthnasol

<sup>2</sup> Amherthnasol

### 3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gyngorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch-gyflogau a Chyflogau Dinesig

#### Cyflog Sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gyngorau

3.1 Yn 2009, pennodd y Panel mai £13,868 fyddai uchafswm cyflog sylfaenol. Ar y pryd roedd hynny'n gyfystyr â thair rhan o bump o enillion gros canolrifol yr holl weithwyr llawn-amser oedd yn byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoddwyd gan y Swyddfa Ystadegol Gwladol. Asesodd y Panel ei bod yn briodol defnyddio ffigur y gellir ei gymharu â chyflog etholwyr, wedi'i addasu ar gyfer natur ran-amser gwaith aelod nad oes ganddo unrhyw gyfrifoldebau uwch. Cafodd yr un ffigur, sef £13,868, ei bennu fel cyflog sylfaenol yn adroddiad blynyddol y Panel yn 2019, ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Mae papur esboniadol manwl, amlinellu'r cyd-destun hanesyddol ac yn roi dadansoddiad, ar gael ar wefan y Panel yn <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/trosolwg-hanesyddol-o-benderfyniadaur-panel-ar-gyflogau-aelodau.pdf>. Mae'r prif faterion wedi'u nodi isod:

3.1.1 Dros y degawd diwethaf, gan ystyried fforddiadwyedd a derbynioldeb, mae'r Panel wedi penderfynu ar ffigurau cyflog sylfaenol sydd wedi amrywio ond nad ydynt wedi cadw'n gyson â mesurau chwyddiant na chymariaethau posibl eraill. Mae Tabl 1, a ddangosir yn Graff 1, yn dangos cyfradd cynnydd y mesurau amgen hyn o ran y cyflog sylfaenol o £13175, o 2012 ymlaen. Mae Tabl 2 yn mynegi'r cynnydd hwn fel canran flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y gwahanol gymaryddion a ddadansoddwyd yw'r mynegai prisiau manwerthu (RPI), y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI), cyflog canolrifol Cymru, NJC (gweithwyr y sector cyhoeddus), y cyflog byw, Aelodau'r Cynulliad, ac Aelodau Seneddol. Cyfrifir hyn ar y dybiaeth fod y gweithgarwch sylfaenol sy'n ofynnol gan aelod etholedig (h.y. heb y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cyflog uwch) yn gyfystyr â thri diwrnod o waith yr wythnos. Mae'r Panel yn cydnabod bod llawer o aelodau'n gweithio mwy o oriau na'r oriau hyn, fel y dadansodir ym mharagraffau 3.2 a 3.3. Mae'n dilyn felly, ac eithrio'r ffigur ar gyfer Aelod Etholedig Sylfaenol, mai symiau rhagfynegol a thybiannol yw'r rhai a ddangosir.

3.1.2 Er mwyn gosod hyn yng nghyd-destun aelodau etholedig eraill Cymru, yn ystod yr un cyfnod o 8 mlynedd mae cyflog Aelod o'r Cynulliad wedi cynyddu 25.6% (£53,852 i £67,649 – bellach wedi'i fynegeo i Gyflog Cyfartalog Cymru yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) ac mae cyflogau Aelod Seneddol wedi cynyddu 22.4%

(£65,738 i 79,468, sydd eto wedi'i gysylltu ag enillion etholwyr).

3.1.3 Felly mae cyflogau aelodau'r meinciau cefn wedi syrthio yn ôl yn sylweddol yn ôl unrhyw fesur rhesymol o chwyddiant.

**Tabl 1 – Mesurau a meincnodau gwahanol ar gyfer cyflog sylfaenol (llynell sylfaen 2013)**

Blwyddyn		2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
<b>IRPW Sylfaenol</b>		<b>13175</b>	<b>13300</b>	<b>13300</b>	<b>13300</b>	<b>13400</b>	<b>13600</b>	<b>13868</b>	<b>14218</b>
<b>RPI</b>		13175	13531	13747	13912	14259	14845	15245	15702
<b>CPI</b>		13175	13518	13720	13734	13775	14175	14515	14805
<b>Canolrif Cymru</b>	13175	13702	13784	13922	14297	14441	14758		15053*
<b>NJC SP 27**</b>	13175	13267	13321	13587	13723	13860	14137		14505
<b>Cyflog Byw</b>	13175	13425	13828	14257	15326	15970	16672		17489
<b>Cyflog AC</b>	13175	13175	13175	13175	13306	15662	15991		16550
<b>Cyflog AS</b>	13175	13307	13440	14824	15017	15227	15501		15920


**Tabl 2 – cynnydd canrannol yn ôl mesurau neu feincnodau gwahanol**

Blwyddyn	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	CYFANSWM 7 mlynedd cyfansawdd
<b>IRPW Sylfaenol</b>		<b>0.9</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0.8</b>	<b>1.5</b>	<b>2.0</b>	<b>2.5</b>	<b>7.9%</b>
<b>RPI</b>		2.7	1.6	1.2	2.5	4.1	2.7	3.0	19.2%
<b>CPI</b>		2.6	1.5	0.1	0.3	2.9	2.4	2.0	12.4%
<b>Canolrif Cymru</b>		4.0	0.6	1.0	2.7	1.0	2.2	2.0*	14.3%
<b>NJC SP27**</b>		0.7	0.4	2.0	1.0	1.0	2.0	2.6	10.0%
<b>Cyflog Byw</b>		1.9	3.0	3.1	7.5	4.2	4.4	4.9	32.7%
<b>Cyflog AC</b>		0	0	0	1.0	17.7	2.1	3.5	25.6%
<b>Cyflog AS</b>		1.0	1.0	10.3	1.3	1.4	1.8	2.7	20.8%

\* amcangyfrif \*\* mae SP27 yn newid i SP20 o 2019 ymlaen



**Graff 1:**



3.2 Mae'r Panel yn dal i fod yn ymwybodol bod y gweithgareddau allweddol y mae'n ofynnol i aelod etholedig o brif gyngor eu cyflawni'n amrywio. Dylai dyletswyddau a gyflawnir alluogi'r holl aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau anweithredol craidd i lywodraethu eu cyngor ac i gynrychioli'r rhai sy'n byw yn eu ward. Fel rôl etholedig, nid yw swyddi o'r fath yn cael eu trin yn rhwydd yn yr un modd â chyflogaeth sydd ag oriau wedi'u meintioli'n fanwl gywir. Mae'r gwaith sy'n deillio o gynrychioli trigolion ward yn arbennig o amrywiol gan y dylanwedir arno gan yr amrywiadau mawr mewn amodau economaidd-gymdeithasol, demograffeg a lefelau trefoli a hefyd y gwahanol gymarebau rhwng trigolion a chynghorwyr. Mae'r amrywiadau hyn yn digwydd o fewn awdurdodau unigol yn ogystal â rhwng awdurdodau lleol pan gymharir y rhain ledled Cymru. Pan ymglymerir â swyddi etholedig disgwylir lefel o ymrwymiad personol i'r gymuned sy'n mynd y tu hwnt i oriau diffiniedig y rhoddir cydnabyddiaeth ariannol amdanynt. Mae'n llawer o

aelodau etholedig yn dweud eu bod yn treulio llawer mwy o amser na'r tridiau tybiannol (amser ychwanegol a weithir ac a oedd yn cael ei ddiffinio'n flaenorol gan y Panel fel 'disgownt gwasanaeth cyhoeddus').

- 3.3 Yn 2017 ymwelodd aelodau'r Panel â'r holl brif gynghorau yng Nghymru i gwrdd ag aelodau etholedig i oleuo a diweddarau eu dealltwriaeth am weithgareddau aelodau etholedig a chyfetholedig. Yn ystod 2018 a 2019, bu'r Panel yn parhau i gysylltu'n rheolaidd â chynghorwyr a swyddogion. Bu aelodau'r Panel yn cyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a'u swyddogion. Mae'r Panel hefyd, drwy amrywiol ohebiaeth â chynghorau ac aelodau cyngor unigol ac eraill, wedi parhau i gynnal deialog. Y sefyllfa a nodir yn gyffredinol gan gynghorwyr a swyddogion o hyd, yn arbennig yng nghyd-destun cyni – yw bod y llwyth gwaith y mae pob aelod etholedig yn ei ysgwyddo yn sylweddol, ac yn fwy na 3 diwrnod yr wythnos.
- 3.4 Wrth wneud penderfyniadau ariannol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae'r Panel wedi ystyried y datblygiad yr amrywiaeth o ffigurau meincnod a amlinellir uchod ar gyfer y cyfnod o 2012 i 2019. Yn ogystal â ffigurau enillion gros canolrifol yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer Cymru, fe wnaeth y Panel hefyd ystyried y Mynegai Prisiau Manwerthu, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, Graddfeydd Cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a ffigurau Cyflog Byw. Fel y gwelir yn Nhabl 1 uchod, mae'r bwlch rhwng lefel y gydnabyddiaeth ariannol sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau a dangosyddion perthnasol o godiadau mewn incwm a chostau byw wedi parhau i dyfu. O 2017 dechreuodd y Panel weithredu i arafu'r duedd hon a chyfyngu ar gyfradd yr erydiad. Mae unrhyw addasiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyson ag egwyddor y Panel y dylai ei benderfyniadau fod yn fforddiadwy ac yn dderbyniol. Er bod cyllid y sector cyhoeddus yn dal i fod dan bwysau, mae'r wybodaeth sydd i'w gweld yn Nhabl 1 a Thabl 2 yn cefnogi ystyriaeth y Panel bod cyfiawnhad dros gynnydd yn y cyflog sylfaenol. Mae wedi penderfynu y dylai fod cynnydd o £350 y flwyddyn yn 2020/21, sy'n cyfateb i 2.5% - pwynt sydd hanner ffordd rhwng y Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Byddai hyn yn adfer lefel y cyflog sylfaenol i'r swm a dalwyd yn 2011. Mae'r cynnydd arfaethedig yn berthnasol i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau prif gynghorau mewn cydnabyddiaeth o'r dyletswyddau sy'n ddisgwyliedig gan bob aelod etholedig.
- 3.5 Bydd y cyflog hwn yn cael ei dalu gan bob prif awdurdod yng Nghymru o 1 Ebrill 2020 i bob un o'i aelodau etholedig oni fydd unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm is.

**Penderfyniad 1: Bydd y cyflog sylfaenol yn 2020/21 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn £14,218 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**


**Uwch-gyflogau**

- 3.6 Er gwaethaf y duedd o gynnydd bach yn lefel uwch-gyflogau ers 2012 (sydd wedi bod yn is nag unrhyw fesur chwyddiant), mae uwch-gyflogau yn is na'r hyn a welwyd deng mlynedd yn ôl. Mae'r mesurau cymharol i'w gweld yn y paragraff uchod yn ymwneud â chyflogau aelodau sylfaenol dros yr un cyfnod (Tabl 1 a Graff 1).
- 3.7 At ddibenion y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd y canolbwynt (Grŵp B) pan fo tair cyfradd mewn band cyflog.

**Tabl 3 – Penderfyniadau'r Panel ar Uwch-gyflogau 2012-20**

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
<b>Arweinydd</b>	47500	47500	48000	48000	48000	48100	48300	49100	49450
<b>Dirprwy Arweinydd</b>	33460	33460	33500	33500	33500	33600	33800	34600	34950
<b>Aelod Gweithredol</b>	28780	28780	29000	29000	29000	29100	29300	30100	30450
<b>Cadeirydd/ Arweinydd Gwrthblaid</b>	21910	21910	22000	22000	22000	22100	22300	22568	22918
<b>Arweinydd Grŵp</b>	16920	16920	17000	17000	17000	17100	17300	17568	17918
<b>Pennaeth Dinesig</b>	21375	21375	21500	21500	21500	21600	21800	22568	22918

**Graff 2:**



- 3.8 Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch-gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn dal i sefyll. Yn 2020/21 ni fydd uchafswm nifer yr uwch-gyflogau sy'n daladwy ym mhob cyngor yn cael ei newid ac fe fydd fel y'i nodir yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Uchafswm yr aelodau o gynghorau sy'n gymwys i gael uwch-gyflog**

Cyngor	Nifer y cynghorwyr	Nifer yr uwch-gyflogau
<b>Grŵp A</b> (poblogaethau dros 200,000)		
Caerdydd	75	19
Rhondda Cynon Taf	75	19
Abertawe	72	19
<b>Grŵp B</b> (poblogaethau rhwng 100,000 a 200,000)		
Pen-y-bont ar Ogwr	54	18
Caerffili	73	18
Sir Gaerfyrddin	74	18
Conwy	59	18
Sir y Fflint	70	18
Gwynedd	75	18
Castell-nedd Port Talbot	64	18
Casnewydd	50	18
Sir Benfro	60	18
Powys	73	18
Bro Morgannwg	47	18
Wrecsam	52	18
<b>Grŵp C</b> (poblogaethau hyd at 100,000)		
Blaenau Gwent	42	17
Ceredigion	42	17
Sir Ddinbych	47	17
Ynys Môn	30	16
Merthyr Tudful	33	16
Sir Fynwy	43	17
Torfaen	44	17

**Taliadau i aelodau'r weithrediaeth, cadeiryddion pwyllgorau ac arweinydd yr wrthblaid**

- 3.9 Ni fydd unrhyw godiad ychwanegol yn cael ei dalu i ddeiliaid swyddi uwch-gyflogau yn 2020. Cafodd aelodau o'r fath godiad yn adroddiad blynyddol y llynedd a dim ond yr elfen o gynnydd yn y cyflog sylfaenol y bydd deiliaid uwch-gyflogau yn ei gael.

## **Y Weithrediaeth**

3.10 Yn 2009, daeth y Panel i'r casgliad y dylid ystyried bod aelodau'r Weithrediaeth yn gweithio oriau sy'n cyfateb i amser llawn (tua 40 awr yr wythnos), ond nid naw tan bump o reidrwydd. Mae trafodaethau parhaus gydag aelodau a swyddogion yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cadarnhau'r casgliad hwn.

3.11 Mae uwch-gyflogau wedi'u nodi ym Mhenderfyniad 2.

## **Cadeiryddion Pwyllgorau**

3.12 Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfrifoldebau a swyddogaethau cadeirio gwahanol bwyllgorau. Atgoffir cynghorau nad oes rhaid iddynt dalu cadeiryddion pwyllgorau. Mater i bob cyngor yw penderfynu pa gadeiryddion pwyllgorau, os o gwbl, sy'n cael eu cydnabod yn ariannol. Mae hyn yn caniatáu cynghorau i ystyried gwahanol lefelau cyfrifoldeb.

3.13 Lle telir cadeiryddion pwyllgorau, y tâl fydd £22,918.

## Y Bandiau Uwch-gyflog

**Penderfyniad 2: Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2020/21 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 5 a byddant yn dod i rym o 1 Ebrill 2020.**

**Tabl 5:** Cyflogau sylfaenol ac uwch-gyflogau sy'n daladwy i aelodau o brif gynghorau

<b>Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i'r holl aelodau etholedig) £14,218</b>			
	<b>Grŵp A</b> Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe	<b>Grŵp B</b> Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam	<b>Grŵp C</b> Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn
<b>Uwch-gyflogau (gan gynnwys cyflog sylfaenol)</b>			
<b>Band 1</b> Arweinydd	£54,450	£49,450	£44,450
Dirprwy Arweinydd	£38,450	£34,950	£31,450
<b>Band 2</b> Aelodau gweithrediaethau	£33,450	£30,450	£27,450
<b>Band 3</b> Cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol):		£22,918	
<b>Band 4</b> Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf <sup>3</sup>		£22,918	
<b>Band 5</b> Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill		£17,918	

### Nodiadau ar Dabl 5:

- a. Mae'r Panel o'r farn mai swyddogaethau arweiniol a gweithredol (cyflogau Band 1 a 2 yn eu tro) sydd â'r atebolrwydd unigol mwyaf, a bod 'maint y boblogaeth' yn parhau i fod yn ffactor sylweddol sy'n dylanwadu ar lefelau cyfrifoldeb ac felly mae'r defnydd o dri grŵp o'r boblogaeth (A, B ac C) yn parhau. Er gwybodaeth: Grŵp Poblogaeth A – 200,000 a throsodd; Grŵp

Poblogaeth B – 100,001 i 199,999; Grŵp Poblogaeth C – hyd at 100,000.

- b. Cynigir y bydd uwch-gyflogau Band 1 a Band 2 ar gyfer Arweinwyr, Dirprwy Arweinwyr ac Aelodau Gweithrediaethau yn cynyddu £350 yn unig, sef yr hyn a ddyfernir i'r cyflog sylfaenol.
- c. Bydd cadeiryddion pwyllgorau yn derbyn taliadau Band 3. Mater i bob cyngor yw penderfynu pa gadeiryddion pwyllgorau, os o gwbl, sy'n cael eu cydnabod yn ariannol. Mae hyn yn caniatáu cynghorau i ystyried gwahanol lefelau cyfrifoldeb.
- d. Mae'r amod bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwrthblaid neu arweinydd unrhyw grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn bod yn gymwys i gael uwch-gyflog yn parhau'n ddigyfnewid.
- e. Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i gyngor drefnu bod uwch-gyflog ar gael i arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf.
- f. Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid talu uwch-gyflog Band 5 i arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol.

### **Taliadau i Benaethiaid a Dirprwyon Dinesig (Cyflogau Dinesig)**

- 3.14 O'r blaen, roedd y Panel wedi caniatáu i gynghorau amrywio cyflogau penaeithiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau penodol sy'n perthyn i'w swyddi. Fodd, bynnag, mynegodd cynghorau'n gryf wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud penderfyniadau a chafwyd gwared ar ddewisiadau ac opsiynau o'r fath yn 2019. Yn achos cyflogau dinesig, pe caent eu talu, mae'r taliad ar gyfer Band 3 wedi'i osod ar £22,918 ar gyfer pennaeth dinesig ac ar y cyflog Band 5 o £17,918 ar gyfer dirprwy bennaeth dinesig (Penderfyniad 3). Mae'n bosibl y bydd cyngor yn penderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig o gwbl ar gyfer swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig.
- 3.15 Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap (ac eithrio Cynghorau Ynys Môn a Merthyr Tudful).

**Penderfyniad 3: Rhaid talu cyflog Band 3 o £22,918 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, a rhaid talu cyflog Band 5 o £17,918 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, a byddant yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**

<sup>3</sup>Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf. Gweler Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, Atodiad 2, Rhan 1(2) ar gyfer diffiniad o "grŵp yr wrthblaid fwyaf" a "grŵp gwleidyddol arall".

- 3.16 Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor i bob math o sefydliadau a chyrrff. Mae gofyniad y Panel na ddylai aelodau orfod talu am gost y cymorth (gweler penderfyniad 10) y mae ei angen i gyflawni eu dyletswyddau yn berthnasol yn achos dirprwy benaethiaid dinesig hefyd.
- 3.17 Mewn sawl achos, mae penaethiaid dinesig yn cael cymorth ysgrifenyddol, yn cael cludiant ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ac yn gallu manteisio ar gyllideb lletygarwch ar wahân sy'n cael ei rheoli gan swyddogion y cyngor.
- 3.18 Mae'r Panel yn cydnabod yr ystod o wahanol fathau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer penaethiaid dinesig o ran cludiant, cymorth ysgrifenyddol, rhoddion elusennol a dillad. Nid cydnabyddiaeth ariannol bersonol yw penderfyniadau cyllido mewn perthynas â lefelau o gymorth ychwanegol o'r fath, ond yn hytrach cyllid sy'n ofynnol i gyflawni'r tasgau a'r dyletswyddau. Penderfyniad i'r cynghorau unigol yw'r rhain o hyd. Mae cynghorau'n rhydd i fuddsoddi mewn cymorth ar ba bynnag lefel sy'n briodol yn eu barn nhw ar gyfer yr arweinyddiaeth ddinesig sydd yn ei lle.
- 3.19 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi aelod llywyddol sy'n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig lai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny.

### **Taliadau i Aelodau Llywyddol**

- 3.20 Atgoffir cynghorau nad oes rhaid iddynt dalu aelod llywyddol sy'n cael ei benodi. Os bydd yn cael ei dalu, bydd y swydd yn cyfrif tuag at y cap, ac yn derbyn uwch gyflog Band 3 o £22,918.

**Penderfyniad 4: Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael uwch-gyflog Band 3 o £22,918.**

**Penderfyniad 5: Ni fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol.**

### **Y ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel:**

- 3.21 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw'r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y swyddogaethau craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig sy'n rhan o lywodraethu lleol am gyfnod sy'n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad di-dâl at wasanaeth cyhoeddus.



3.22 Rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau'n cael eu rhoi dan bwysau i fynd heb rywfaint o'r cyflogau'n cael ei osgoi.

Rhaid cymhwyso'r canlynol:

**Penderfyniad 6:**

- a) Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch-swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi.
- b) Ni ddylid talu uwch-gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.
- c) Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch-gyflog a chyflog dinesig a delir.
- d) Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch-gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch-gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch-gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

**Penderfyniad 7: Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo. Mae ganddynt hawl o hyd i hawlio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliad o gostau gofal gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod Tân ac Achub**

**Penderfyniad 8: Ni all aelodau sy'n cael cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw dâl gan Gyngor Cymuned neu Dref y maent yn aelod ohono. Maent yn dal yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal gan y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref.**

**Cefnogi gwaith aelodau etholedig awdurdodau lleol**

3.23 Yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2017 bu aelodau'r Panel yn ymweld â'r holl brif awdurdodau yng Nghymru. Mae'r ymweliadau hyn wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i aelodau a swyddogion drafod yr amrywiadau sy'n digwydd a rhannu a deall y manteision a geir trwy fynd ati'n briodol i gefnogi gallu aelodau i gyflawni eu dyletswyddau sylfaenol yn effeithiol.

3.24 Mae'r Panel yn disgwyl bod y cymorth a roddir yn ystyried anghenion penodol

aelodau unigol. Mae swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu'r lefel o gymorth a roddir i aelodau i gyflawni'u dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn gynnal adolygiadau achlysurol a chyflwyno cynigion gerbron y cyngor llawn o ran yr hyn yr ystyrir ei fod yn rhesymol. Dylai unrhyw gynigion gael eu gwneud gan roi sylw dyledus i Benderfyniadau 9 a 10 isod. Er enghraifft, nid yw'r Panel yn ei hystyried yn briodol ei gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig dalu am unrhyw ddefnydd o ffôn i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer y Cyngor fel aelod sy'n cynrychioli ward, aelod o bwyllgor neu aelod o'r cabinet.

- 3.25 Mae'r Panel o'r farn ei bod yn angenrheidiol i bob aelod etholedig gael defnydd hwylus o wasanaethau e-bost a chael mynediad electronig at wybodaeth briodol trwy gyswllt â'r rhyngwrwyd. Nid yw'r Panel yn ei hystyried yn briodol ei gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig dalu am unrhyw ddefnydd o'r rhyngwrwyd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer y Cyngor fel aelod sy'n cynrychioli ward, aelod o bwyllgor neu aelod o'r cabinet. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth angenrheidiol i aelod fod mewn cysylltiad priodol â gwasanaethau'r cyngor a chadw cysylltiad â'r rhai y mae'n eu cynrychioli. Mae cynghorau wedi ymrwymo i 'weithio'n ddi-bapur', a heb fynediad electronig o'r fath byddai aelod yn wynebu cyfyngiadau sylweddol o ran ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau. Ni fyddai'n briodol i gyfleusterau y mae ar aelodau eu hangen fod ar gael yn swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau swyddfa yn unig.
- 3.26 Cyfrifoldeb pob cyngor trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw rhoi cymorth a ddylai fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion ei aelodau. Lle ceir anghenion ychwanegol neu faterion sy'n ymwneud ag anabledd, neu lle nodwyd fod gofynion penodol o ran hyfforddiant, bydd angen i bob awdurdod asesu unrhyw ofynion penodol sydd gan aelodau unigol.
- 3.27 Gallai ei weithredoedd cyfreithlon fel cynghorydd effeithio'n sylweddol ar ddiogelwch personol yr aelod etholedig. Yn unol â'u cyfrifoldebau presennol, dyletswydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yw ariannu neu ddarparu'r cymorth sy'n angenrheidiol i alluogi cynghorydd i gyflawni ei rôl yn rhesymol ac yn ddiogel. Gallai hyn olygu bod angen ariannu mesurau diogelwch priodol i ddiogelu cynghorwyr rhag risg bersonol neu fygythiad sylweddol. Byddai'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn cael ei dewis ar sail asesiad risg a thrafodaeth â chyrrff perthnasol fel yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch.
- 3.28 Ar gyfer aelodau cyfetholedig, mae'r gofynion cymorth wedi'u gosod yn adran 9 a phenderfyniad 40.

**Penderfyniad 9: Dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngwrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol.**

**Penderfyniad 10: Dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.**

### **Uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol**

- 3.29 Mae'r Panel wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd trwy roi darpariaeth i awdurdodau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol, neu na ellid gwneud lle iddynt o fewn uchafswm uwch-gyflogau'r awdurdod. Os yw'r ychwanegiad arfaethedig yn cael ei gymeradwyo ac yn achosi i'r Cyngor fynd y tu hwnt i'r cap hwn, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gymeradwyaeth (ac eithrio Cyngorau Merthyr Tudful ac Ynys Môn – gweler troednodyn 4). Mae rhai cyngorau wedi codi'r posibilrwydd o weithredu rhai swyddi ag uwch-gyflogau yn ôl trefniant "rhannu swyddi". Mae'r Panel yn cefnogi'r egwyddor hon a chaiff y broses ei nodi ym Mharagraff 3.31.

**Penderfyniad 11: Gall Prif Gyngorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

- 3.30 Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014 ac roeddent yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:
- a. Ni all cyfanswm yr uwch-gyflogau fod yn uwch na hanner cant y cant<sup>4</sup> o'r aelodaeth.
  - b. Bydd raid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (oni bai bod hyn wedi'i ddirprwyo o fewn y Rheolau Sefydlog) cyn eu cyflwyno i'r Panel.
  - c. Rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd neu'r swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, swyddogaeth a hyd.
  - d. Bydd raid i bob cais ddynodi'r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad ffurfiol o'r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

<sup>4</sup> Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Adran 142 (5) Ni all y gyfran sy'n cael ei gosod gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn uwch na hanner cant y cant oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i hynny.

### 3.31 Trefniadau Rhannu Swyddi

I aelodau o weithrediaeth: Bydd pob “rhannwr” yn cael cyfran briodol o’r grŵp cyflogau fe y’i nodir yn Nhabl 5.

Ni ellir mynd y tu hwnt i’r uchafswm statudol ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm.

O dau dan y Mesur, nifer y bobl sy’n cael uwch-gyflog, nid nifer y swyddi ag uwch-gyflogau, sy’n cyfrif tuag at y cap. Felly, ar gyfer yr holl drefniadau rhannu swyddi bydd y cap uwch-gyflog yn cael ei gynyddu yn amodol ar yr uchafswm statudol o 50% o aelodaeth y Cyngor.

Rhaid hysbysu’r Panel ynghylch manylion unrhyw drefniadau rhannu swyddi.

## 4. Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (JOSC)

- 4.1 Ychydig o ddefnydd a wnaed o'r trefniadau ar gyfer Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Felly mae'r Panel wedi penderfynu dileu'r taliad o'r fframwaith. Os, yn y dyfodol, y bydd JOSC yn cael ei ffurfio gan gyngor unigol, a'i fod yn dymuno rhoi cydnabyddiaeth ariannol, gall wneud cais am gydnabyddiaeth ariannol gan ddefnyddio trefniadau sydd i'w gweld ym mharagraffau 3.31 a 3.32. Bydd y pwyllgorau JOSC sy'n gweithredu'n barod yn parhau heb fod angen cadarnhad pellach.

## **5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau**

- 5.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau.

**Penderfyniad 12: Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.**

## 6. Hawl i Absenoldeb Teuluol

Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau etholedig prif awdurdodau.

- 6.1 Cafodd y Rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2013<sup>5</sup> ac maent yn cynnwys absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol.
- 6.2 Bu'r Panel yn ystyried goblygiadau taliadau cydnabyddiaeth i aelodau o'r fath y rhoddir absenoldeb iddynt dan delerau Rheoliadau Llywodraeth Cymru a chaiff penderfyniadau'r Panel eu nodi isod.

**Penderfyniad 13: Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.**

**Penderfyniad 14: Pan fo deiliad uwch-gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery'r absenoldeb.**

**Penderfyniad 15: Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol. Bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch-gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch-gyflog, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.**

**Penderfyniad 16: Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch-gyflogau sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod nifer yr uwch-gyflogau'n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o'r fath.**

**Penderfyniad 17: Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo.**

**Penderfyniad 18: Rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.**

<sup>5</sup> [http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2901/pdfs/wsi\\_20132901\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2901/pdfs/wsi_20132901_mi.pdf)

## 7. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau)

### Strwythur Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

7.1 Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru – Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri; fe'u ffurfiwyd i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer y cyhoedd. Deddf yr Amgylchedd 1995 a arweiniodd at greu'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) cyfatebol. Mae gan y rhain ddau brif ddiben sef:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Yn ogystal â chyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau o fewn y Parc.

7.2 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y Prif Gyngorau o fewn ardal y Parc Cenedlaethol neu'n aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y Cyngor eu trin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol.

7.3 Caiff strwythur y Pwyllgor Aelodau ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol ei nodi yn Nhabl 6.

**Tabl 6: Aelodaeth o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru**

Awdurdod Parc Cenedlaethol	Cyfanswm Aelodaeth	Aelodau a Enwebwyd gan Brif Gyngorau	Aelodau a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru
<b>Bannau Brycheiniog</b>	24	16: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1 Cyngor Sir Gaerfyrddin – 2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1 Cyngor Sir Fynwy – 2 Cyngor Sir Powys – 8 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 1	8
<b>Arfordir Penfro</b>	18	12: Cyngor Sir Penfro – 12	6
<b>Eryri</b>	18	12: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 3 Cyngor Gwynedd -9	6



- 7.4 Hefyd mae gan Bwyllgorau Safonau APCau aelodau cyfetholedig annibynnol y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y Fframwaith fel y nodir yn Adran 9.
- 7.5 Wrth ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o APCau, mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:
- Mae APCau yn rheoli eu gwaith trwy gyfarfodydd awdurdod ffurfiol, pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae gan bob un Bwyllgor Datblygu, Pwyllgor Rheoli a/neu Bwyllgor Cynllunio ac mae pwyllgorau eraill yn cynnwys Perfformiad ac Adnoddau ac Archwilio a Chraffu. Mae aelodau cyffredin o APCau yn aelodau o un pwyllgor o leiaf, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd a phaneli arolygu.
  - Mae disgwyl i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu.
  - Mae gan gadeirydd APC rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, rôl gynrychiadol sy'n debyg mewn rhai ffyrdd i rôl pennaeth dinesig a lefel uchel o atebolrwydd. Nid dim ond arweinydd yr awdurdod yw'r cadeirydd, ond y cadeirydd hefyd yw wyneb cyhoeddus y parc cenedlaethol dan sylw a'r cysylltiad â'r Gweinidog ac ACau y mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy. Mae'r rôl yn galw am lawer o ymrwymiad ac amser.

### **Cyflogau sylfaenol ac uwch-gyflogau**

- 7.6 Ymwelodd y Panel â phob un o'r tri APC yn 2019. O ganlyniad i'r trafodaethau a ddigwyddodd yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yr ymrwymiad amser y seilir y gydnabyddiaeth ariannol arno yn cael ei godi o 42 diwrnod i 44 diwrnod. Bydd cyflog aelodau APCau yn cynyddu i £4,010.
- 7.7 Penderfynodd y Panel yn y gorffennol y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd APC fod yn gyson â'r rhan o uwch-gyflog Band 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor. Bydd y cyflog hwn yn cynyddu i £12,710.
- 7.8 O'r blaen, mae'r Panel wedi darparu'r opsiwn i APC benderfynu pa un o ddwy lefel cyflog y gellir ei rhoi i rolau dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor arall. Yn ystod yr ymweliadau, roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y trefniant hwn yn briodol bellach. Felly, mae'r Panel wedi penderfynu cael gwared ar y trefniant dewisol. Bydd y cyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a chadeirydd pwyllgor yn codi i £7,710 sy'n gyson â Band 5.

### **Uwch-gyflogau Ychwanegol**

- 7.9 Cafwyd adborth yn ystod ymweliadau'r Panel ag APCau y gall ei benderfyniad y gallai hyd at ddau o Gadeiryddion Pwyllgorau APC gael uwch-gyflog fod yn rhwystr i Awdurdodau o ran cyflawni eu gofynion

llywodraethu.

- 7.10 Mae'r Panel yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i brif gynghorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. Mae'r Panel yn ymestyn y ddarpariaeth hon i APCau fel a adlewyrchir yn yr egwyddorion canlynol:
- Bydd raid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn) cyn eu cyflwyno i'r Panel.
  - Rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd neu'r swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, swyddogaeth a hyd.
  - Bydd raid i bob cais ddynodi'r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad ffurfiol o'r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

7.11 Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 19: Ycyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fydd £4,010, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**

**Penderfyniad 20: Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fydd £12,710, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**

**Penderfyniad 21: Rhaid talu uwch-gyflog APC o £7,710 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.**

**Penderfyniad 22: Gellir talu cyflog o £7,710 i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor.**

**Penderfyniad 23: Gall APCau ymgeisio am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

**Penderfyniad 24: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan APC.**

**Penderfyniad 25: Caiff uwch-gyflog APC ei dalu gan gynnwys cyflog sylfaenol APC.**

**Penderfyniad 26: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo.**

Sylwer: Nid yw absenoldeb teuluol yn berthnasol i aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru ac mae'r rhai a enwebwyd gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn nhrefniadau'r prif gyngor dan sylw, felly nid oes gofyn i APCau wneud unrhyw drefniadau o ran hyn.

## 8. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (ATAau)

### Strwythur Awdurdodau Tân ac Achub

- 8.1 Mae tri Awdurdod Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru: Ffurfiwyd Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996.
- 8.2 Mae ATAau yn cynnwys aelodau etholedig a enwebwyd gan y Prif Gyngorau yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- 8.3 Caiff strwythur pob un o'r tri ATA ei nodi yn Nhabl 7.

**Tabl 7: Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub**

Awdurdod Tân ac Achub	Nifer yr Aelodau a enwebwyd gan Awdurdodau Lleol
Canolbarth a Gorllewin Cymru	25: Cyngor Sir Caerfyrddin – 5 Cyngor Sir Ceredigion – 2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – 4 Cyngor Sir Penfro – 3 Cyngor Sir Powys – 4 Cyngor Dinas a Sir Abertawe – 7
Gogledd Cymru	28: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 5 Cyngor Sir Ddinbych – 4 Cyngor Sir y Fflint – 6 Cyngor Gwynedd – 5 Cyngor Sir Ynys Môn – 3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 5
De Cymru	24: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – 2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 3 Cyngor Dinas Caerdydd – 5 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1 Cyngor Sir Fynwy – 2 Cyngor Dinas Casnewydd – 2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 2 Cyngor Bro Morgannwg – 2

- 8.4 Hefyd mae gan Bwyllgorau Safonau ATAau aelodau Cyfetholedig Annibynnol, y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y fframwaith fel y nodir yn Adran 9.

8.5 Wrth ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o ATAau, mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae gan y Cadeirydd rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, a lefel uchel o atebolrwydd, yn enwedig wrth i faterion dadleuol godi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth brys. Yn ogystal â chyfarfodydd yr awdurdod tân, mae gan bob ATA bwyllgorau sy'n cynnwys, mewn gwahanol gyfuniadau: archwilio, rheoli perfformiad, craffu, adnoddau dynol, rheoli adnoddau yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen a phaneli disgyblu. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd ffurfiol yr awdurdod a'r pwyllgorau, mae aelodau yn cael eu hannog i ymgymryd â rôl ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ymweld â gorsafodded tân.
- Mae ethos hyfforddi cryf mewn ATAau. Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Mae rhaglenni sefydlu ar gael, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer peliadau a gwrandawiadau disgyblu.
- Ychwanegir sesiynau hyfforddi'n aml at gyfarfodydd awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch.

### **Cyflogau Sylfaenol ac Uwch-gyflogau**

- 8.6 O ganlyniad i'r wybodaeth a gafwyd yn ystod ymweliadau'r Panel â'r tri ATA yn 2019, mae'r ymrwymiad amser y seilir y cydnabyddiaeth arno wedi'i godi o 20 diwrnod i 22. Bydd cyflog aelodau'n codi i £2,005.
- 8.7 Penderfynodd y Panel y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd ATA fod yn gyson â'r rhan o uwch-gyflog ym Mand 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor. Bydd y cyflog hwn yn cynyddu i £10,705.
- 8.8 Penderfynodd y Panel y bydd cydnabyddiaeth ariannol i Ddirprwy Gadeirydd ATA yn cael ei chysoni â'r uwch-gyflog ym Mand 5 ar gyfer prif gynghorau. Bydd yn cynyddu i £5,705 a bydd raid ei thalu os bydd yr awdurdod yn penodi dirprwy gadeirydd.
- 8.9 Mae'r Panel wedi penderfynu y gellir rhoi cydnabyddiaeth ariannol, sy'n gyson â Band 5, i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA. Bydd hon yn codi i £5,705.

### **Uwch-gyflogau Ychwanegol**

- 8.10 Mae'r Panel yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i brif gynghorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. Mae'r Panel yn ymestyn y ddarpariaeth hon i ATAau fel a adlewyrchir yn yr egwyddorion canlynol:
- a. Bydd raid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn) cyn eu cyflwyno i'r Panel.
  - b. Rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd neu'r swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, swyddogaeth a hyd.

- c. Bydd raid i bob cais ddynodi'r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad ffurfiol o'r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

### **Byrddau Pensiwn Lleol**

- 8.11 Mae'r Panel wedi ystyried ceisiadau gan ATAAu i ganiatáu iddynt dalu cyflogau i Gadeiryddion byrddau pensiwn lleol a sefydlwyd dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau hynny eisoes yn rhoi'r pŵer i ATAAu benderfynu sut y dylai byrddau pensiwn lleol weithio a thalu i'r cadeirydd ac aelodau os ydynt yn dymuno. Felly nid yw'n briodol i'r Panel wneud penderfyniad sy'n grymuso ATAAu i dalu cyflogau i gadeiryddion byrddau pensiwn lleol. Ni ellir defnyddio'r uwch-gyflogau ym Mhenderfyniad 27 na 28 ar gyfer y rôl hon yn unig.
- 8.12 Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 27: Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,005, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**

**Penderfyniad 28: Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £10,705, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.**

**Penderfyniad 29: Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £5,705 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.**

**Penderfyniad 30: Gellir talu i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor. Y tâl fydd £5,705.**

**Penderfyniad 31: Gall ATAAu wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

**Penderfyniad 32: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan ATA.**

**Penderfyniad 33: Telir uwch-gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.**

**Penderfyniad 34: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.**

## 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub <sup>6</sup>

- 9.1 Mae'r Panel wedi penderfynu bod ffi dyddiol neu hanner diwrnod yn gydnabyddiaeth ariannol briodol am y rôl bwysig a gyflawnir gan aelodau cyfetholedig o awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio (mae hyn yn cynnwys yr aelod cyfetholedig o gyngor cymuned neu dref). Mae lefel y taliadau yn gyfwerth â'r cyfraddau dyddiol cyfredol ar gyfer cadeiryddion ac aelodau o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ym Mand 2.
- 9.2 Bydd uchafswm y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gall aelodau cyfetholedig gael tâl amdanynt yn dibynnu ar raglen waith y pwyllgor dan sylw. Gan gydnabod swyddogaeth bwysig aelodau cyfetholedig, rhaid rhoi taliadau am amser teithio a pharatoi, pwyllgorau chyfarfodydd o fathau eraill yn ogystal â gweithgareddau eraill, gan gynnwys hyfforddiant, fel y gwelir ym Mhenderfyniadau 36 i 39.
- 9.3 Mae'r penderfyniadau wedi'u nodi isod, a rhaid i brif gyngorau, APCau ac ATAU ddweud wrth aelodau cyfetholedig beth yw enw'r swyddog penodol a fydd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt ar gyfer eu hawliadau; a rhoi gwybod i'r swyddog hwnnw am yr ystod o daliadau y dylid eu gwneud.

**Penderfyniad 35: Rhaid i Brif Gyngorau, APCau ac ATAU dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio (Tabl 8).**

**Tabl 8:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio	£256 (4 awr a mwy) £128 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned	£226 o ffi dyddiol (4 awr a mwy) £113 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio	£198 (4 awr a mwy) £99 (hyd at 4 awr)
Cyngorau tref a chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau safonau prif gyngorau	£198 (4 awr a mwy) £99 (hyd at 4 awr)

**Penderfyniad 36: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad 37:** Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

**Penderfyniad 38:** Rhaid i swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe delir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

**Penderfyniad 39:** Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.

## **Cefnogaeth ar gyfer aelodau cyfetholedig**

- 9.4. Wrth i'r Panel ymweld â phrif gynghorau yn 2017, nodwyd rhai arferion da o ran y ffordd yr oedd swyddogaeth bwysig aelodau cyfetholedig yn cael ei hadlewyrchu yn yr ohebiaeth a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Yn yr achosion gorau, roeddent yn cael yr un amrywiaeth o gefnogaeth ag aelodau etholedig, gan eu galluogi i ysgwyddo eu swyddogaeth yn llawn. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan nifer o gynghorau lle nad oedd penderfyniadau'r Panel yn cael eu gweithredu'n llawn, a chymorth cyfyngedig ar gael i aelodau cyfetholedig.

**Penderfyniad 40:** Dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, bod ei holl aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol.

---

<sup>6</sup> Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned.



## 10. Ad-dalu Costau Gofal

- 10.1 Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i Aelodau Cyfetholedig o'r awdurdodau hyn. Mae'r un ddarpariaeth ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref i'w gweld yn Adran 13.
- 10.2 Diben yr adran hon yw galluogi pobl ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae'r Panel o'r farn na ddylai'r costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal unrhyw unigolion rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl.
- 10.3 Dylai aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gael yr hawl i ad-daliad o'u costau gofal, hyd at yr uchafswm o £403 y mis, ar gyfer gweithgareddau y mae'r cyngor unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy a allai gynnwys amser priodol a rhesymol ar gyfer paratoi a theithio. Mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu ar drefniadau penodol i roi hyn ar waith.
- 10.4 Mae'r Panel yn cydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r traul dilys hwn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y newid i'r gofynion cyhoeddi a nodir yn Atodiad 4. I gefnogi aelodau presennol ac i annog amrywiaeth, mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o Gostau Gofal.

**Penderfyniad 41: Rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.**

## 11. Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch-gyflogau

- 11.1 Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol (a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014) yn benodol iawn mewn perthynas â hawliau a dim ond i aelodau etholedig o brif gynghorau y maent ar gael. Nid yw absenoldeb oherwydd salwch wedi'i gynnwys.
- 11.2 Mae achosion wedi cael eu dwyn i sylw'r Panel sy'n ymwneud â deiliaid uwch-gyflogau ar salwch hirdymor a'r annhegwch canfyddedig o'i gymharu â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. O ganlyniad, mae cynghorau'n wynebu'r cyfyng-gyngor canlynol:
- Gweithredu heb yr aelod unigol ond parhau i dalu'r uwch-gyflog iddo.
  - Disodli'r aelod, sydd felly'n colli'r uwch-gyflog (ond yn cadw'r cyflog sylfaenol).
- 11.3 Mae'r Panel wedi ystyried hyn ac mae'n diwygio'r Fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:
- a) Caiff salwch hirdymor ei ddiffinio fel absenoldebau ardystiedig y tu hwnt i 4 wythnos.
  - b) Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (ond os bydd yn cael ei ailbenodi bydd unrhyw ran o'r 26 wythnos sy'n weddill yn cael ei chynnwys).
  - c) O fewn y terfynau hyn gall deiliad uwch-gyflog sydd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch barhau i gael cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.
  - d) Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ond bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo yn gymwys i gael yr uwch-gyflog sy'n briodol i'r swydd.
  - e) Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch-gyflogau sy'n berthnasol i'r awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynnyddol, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn cael uwch-gyflog. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod o weithrediaeth cyngor pe bai'n golygu bod y cabinet yn mynd y tu hwnt i 10 swydd – yr uchafswm statudol).
  - f) Pan fo'r Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo, rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd disgwyliedig y trefniant dirprwyo. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdodau yn unol â hynny.

g) Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig o brif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid uwch-swyddi gan eu bod yn parhau i gael cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis, ni waeth beth fo'u presenoldeb, a mater i'r awdurdod yw unrhyw estyniad y tu hwnt i'r raddfa amser hon.

11.4 Mae'r trefniant hwn yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub sy'n ddeiliaid uwch-gyflogau, gan gynnwys aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond nad ydynt yn aelodau cyfetholedig.

Sylwer:

Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol yn berthnasol i aelodau etholedig mewn achosion o absenoldeb mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol. Nid ydynt yn berthnasol i aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 12. Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth pan fo'r Aelod ar Fusnes Swyddogol

- 12.1 Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i aelodau cyfetholedig o'r awdurdodau hyn. (Rhoddir darpariaeth debyg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn adran 13 gan fod dull gwahanol yn berthnasol i aelodau o'r fath, sef yn bennaf bod y ddarpariaeth yn ganiataol.)
- 12.2 Gall aelodau hawlio ad-daliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth (prydau a llety) lle mae'r rhain wedi deillio o ganlyniad i gyflawni dyletswyddau swyddogol.
- 12.3 Caiff treuliau a ad-delir i aelodau prif gynghorau, gan eu prif gyngor, eu heithrio rhag treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogeion. Mae'n bosibl y bydd aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn destun trefniadau eraill fel y'u pennwyd gan gyllid a Thollau EM.
- 12.4 Mae'r Panel yn ymwybodol bod aelodau ag anableddau wedi bod yn gyndyn o hawlio treuliau teithio dilys mewn rhai achosion oherwydd ymateb anffafriol yn dilyn cyhoeddi eu costau teithio. Fel dewis arall, gallai trefniadau teithio gael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod dan amgylchiadau o'r fath.
- 12.5 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i gyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond yn ôl cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y gall yr holl awdurdodau ad-dalu costau teithio eu haelodau sy'n ymgymryd â busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod, ac mae'r cyfraddau hyn fel a ganlyn:

### Ad-dalu costau milltiredd

45c y filltir	Hyd at 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car
25c y filltir	Dros 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car
5c y filltir	Am bob teithiwr sy'n cael ei gludo ar fusnes yr awdurdod
24c y filltir	Beiciau modur
20c y filltir	Beiciau

- 12.6 Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan drydydd parti (nad yw'n un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

### Ad-dalu costau teithio eraill

- 12.7 Rhaid i'r holl hawliadau eraill am gostau teithio (gan gynnwys teithio mewn tacsï os mai dyna'r unig ddull cludiant neu'r dull cludiant mwyaf addas) gael eu

had-dalu dim ond os dangosir derbynebau sy'n dangos y gost wirioneddol a byddant yn amodol ar unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod ei bennu. Dylai aelodau wastad fod yn ymwybodol o'r angen i ddewis y dull teithio mwyaf cost-effeithiol.

### Ad-dalu costau cynhaliaeth

£28 y dydd	Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brechwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos
£200 y nos	Llundain
£95 y nos	Ardaloedd eraill
£30 y nos	Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

- 12.8 Mae'r cyfraddau hyn yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod yr awdurdod perthnasol fel arfer yn archebu llety dros nos ac yn talu amdano ar ran aelodau, ac mewn achos o'r fath gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r terfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio'n ôl-ddyledus am lety dros nos yn berthnasol bryd hynny.
- 12.9 Rhaid i bob awdurdod barhau i ad-dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.
- 12.10 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle y bo'n rhesymol ac yn gost-effeithiol ad-dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltired dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.
- 12.11 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebau gyda hawliad o'r fath.

### Parcio Ceir Aelodau

Mae gan nifer o gynghorau drefniadau penodol ar gyfer eu haelodau o ran parcio ceir. Mae'r Panel o'r farn mai mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar drefniadau gan gynnwys taliadau i, a gan, aelodau, ar yr amod ei fod yn benderfyniad ffurfiol gan y cyngor.

### 13. Taliadau i Aelodau o Gyngorau Tref a Chymuned

- 13.1 Mae'r Panel yn cydnabod bod amrywiadau eang o ran daearyddiaeth, cwmpas a graddfa ar draws y 735 o gyngorau tref a chymuned yng Nghymru, o gyngorau cymuned bychain â gwariant cymharol isel ac ychydig o gyfarfodydd i gyngorau tref mawr ag asedau a chyfrifoldebau sylweddol.
- 13.2 Cyfarfu'r Panel â dros 304 o Gyngorwyr a Chlercod a oedd yn cynrychioli 302 o Gyngorau Tref a Chymuned mewn 17 cyfarfod ledled Cymru. Roedd y trafodaethau'n cadarnhau'r farn gyffredinol bod swyddogaethau gwahanol gyngorau yn amrywio'n sylweddol, ac yn unol â'r amrywiad eang hwn bod rhaid i gyfrifoldebau ac atebolrwydd cyngorwyr amrywio hefyd. Mae cyngorwyr sy'n rheoli incwm neu wariant o £1 filiwn a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau arwyddocaol, gan gynnwys rhai a allai fod wedi cael eu dirprwyo gan brif gyngorau, yn gweithredu mewn amgylchedd mwy cymhleth na chyngor sydd â chyllideb flynyddol llai na £30,000.
- 13.3 Yn Adroddiad Blynyddol 2018, ffurfiodd y Panel 3 grŵp o gyngorau cymuned a thref i adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny ar sail lefel incwm *neu* wariant, pa un bynnag oedd uchaf, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r rhain yn aros heb eu newid yn Nhabl 9.

**Tabl 9: Grwpiau Cyngorau Tref a Chymuned**

<b>Grŵp Cyngorau Tref a Chymuned</b>	<b>Incwm <i>neu</i> Wariant yn 2019-20</b>
A	£200,000 ac uwch
B	£30,000 – £199,999
C	Islaw £30,000

- 13.4 Er mwyn gweithredu a chyflawni dyletswyddau fel aelod o gyngor cymuned neu dref, rhaid i bob person wneud datganiad swyddogol yn derbyn y swydd. Yn dilyn y datganiad hwn, bydd aelodau cyngorau cymuned neu dref yn dal swyddi etholedig ac yn rhan o strwythur llywodraeth leol Cymru. Mae'n bwysig nodi bod person sy'n dilyn y trywydd hwn mewn sefyllfa wahanol i fathau eraill o weithgareddau, er enghraifft gwirfoddoli neu waith elusennol, sydd fel rheol yn dod o dan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.
- 13.5 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae cyngorau cymuned a thref yn awdurdodau perthnasol at ddibenion cydnabyddiaeth ariannol.
- 13.6 O ganlyniad, bydd hawl gan unigolion sydd wedi derbyn swydd fel aelod o gyngor cymuned neu dref i gael taliadau yn unol â phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Dyletswydd swyddog priodol o'r cyngor (Clerc y Cyngor fel rheol) yw trefnu bod pob unigolyn sydd â hawl i gael eu talu yn cael y taliadau cywir.

- 13.7 Dylai aelodau dderbyn arian y mae ganddynt hawl ei dderbyn yn gyffredinol. Ni ddylai fod yn ofynnol i unigolion 'optio i mewn' i gael taliadau.
- 13.8 Gall unigolyn wrthod derbyn taliad yn rhannol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhaid i hynny gael ei wneud yn ysgrifenedig, ac mae'n fater i'r unigolyn. Rhaid i aelod o gyngor cymuned neu dref sydd am wrthod taliadau ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol i wneud hynny.
- 13.9 Mae'r Panel yn credu y dylai unrhyw aelod sydd ag anghenion personol, anghenion cymorth neu gyfrifoldebau gofalu gael ei alluogi i gyflawni ei rôl. Felly, mae'r Panel yn gorchymyn ad-dalu cost gofal i holl aelodau cynghorau cymuned a thref fel y'u nodir ym Mhenderfyniad 48.
- 13.10 Ym mhob cyngor cymuned a thref dylai'r swyddog priodol sicrhau bod mynediad parod at ad-daliadau costau gofal priodol er mwyn galluogi'r rhai sy'n gymwys i gael ad-daliad i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae'n amhriodol i gynghorau neu gynghorwyr greu hinsawdd, neu roi pwysau o unrhyw fath, sy'n atal personau rhag cyrraedd at unrhyw arian y mae ganddynt hawl ei dderbyn a allai eu helpu i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.
- 13.11 Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor gael unrhyw daliad gan gyngor tref neu gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag dal uwch-swydd (Arweinydd, Dirprwy Arweinydd) heb daliad.
- 13.12 Mae Tabl 10 yn gosod y camau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned a thref eu cymryd yn flynyddol o ran y penderfyniadau a ganlyn.

### **Taliadau tuag at gostau a threuliau**

- 13.13 Mae'r Panel yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i dalu £150 fel cyfraniad ar gyfer costau a threuliau pob aelod cyngor tref a chymuned.
- 13.14 I osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r penderfyniad hwn bellach yn cynnwys pob cyngor. Nid oes angen derbynebau ar gyfer y taliadau hyn.

**Penderfyniad 42: Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.**

### **Uwch-rolau**

- 13.15 Mae'r Panel yn cydnabod y gall rolau penodol ar gyfer aelodau yn enwedig o fewn y cynghorau tref a chymuned mwy, er enghraifft cadeirydd pwyllgor, olygu mwy o gyfrifoldeb. Mae hefyd yn debygol y bydd gan y cynghorau mwy nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch. Mae'r Panel felly wedi penderfynu bod yn rhaid i gynghorau yng Ngrŵp A neilltuo taliad o £500 yr un am isafswm o un uwch-rôl ac uchafswm o bum uwch rôl. Gall cynghorau Grwpiau B, C a D dalu hyd at bum taliad cyfrifoldeb (hyd at

£500) am rolau penodedig.

13.16 Ym mhob achos, dim ond un taliad o £500 gall cynghorydd ei dderbyn, beth bynnag yw nifer yr uwch-swyddogaethau sydd ganddo yn y Cyngor.

**Penderfyniad 43: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.**

**Penderfyniad 44: Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.**

13.17 Pan fo person yn aelod ok fwy nag un cyngor cymuned neu dref, mae'n gymwys i dderbyn £150 ac, os yn briodol, £500 gan bob cyngor y mae'n aelod ohono.

#### **Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth**

13.18 Mae'r Panel yn cydnabod y gall fod costau teithio a chynhaliaeth sylweddol sy'n gysylltiedig â gwaith aelodau o gynghorau tref a chymuned, yn enwedig pan fo ardal ddaearyddol y cyngor yn fawr a/neu pan fo'n ymgymryd â dyletswyddau y tu allan i'r ardal. Mae opsiwn gan bob cyngor i dalu costau teithio a chynhaliaeth (gan gynnwys teithio mewn tacsï os mai dyna'r unig ddull cludiant neu'r dull cludiant mwyaf addas). Pan fo cyngor yn dewis talu costau teithio a chynhaliaeth bydd y penderfyniadau canlynol yn berthnasol.

**Penderfyniad 45: Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy<sup>7</sup> Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:**

- 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.
- 25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.
- 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.
- 24c y filltir – beiciau modur preifat.
- 20c y filltir – beiciau.



**Penderfyniad 46: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:**

- **Lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.**
- **£200 – Llundain dros nos.**
- **£95 – rhywle arall dros nos.**
- **£30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.**

### **Digolledu am golled ariannol**

13.19 Mae'r Panel wedi cadw'r cyfleuster sy'n galluogi cynghorau i dalu iawndal i'w haelodau pan fyddant yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy. Mae'r ffigur hwn wedi'i ddiweddarau, unol â'r arolwg blynyddol diweddaraf o oriau ac enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cyflog canolrifol ar gyfer cyflogeion amser llawn yng Nghymru a'r oriau gwaith wythnosol gwirioneddol cyfartalog ar gyfer gweithwyr llawn amser. (wedi'u haddasu yn dymhorol). Rhaid i aelodau fedru dangos bod y golled ariannol wedi'i hysgwyddo. Mae opsiwn gan bob cyngor i dalu iawndal am golled ariannol, a phan fo'n gwneud hynny bydd y penderfyniad canlynol yn berthnasol.

---

<sup>7</sup> Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan yrrwr sy'n drydydd parti (ddim yn un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

**Penderfyniad 47: Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:**

- Hyd at £55.50 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr
- Hyd at £110.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr

### **Ad-dalu costau gofal**

- 13.20 Diben hyn yw galluogi pobl ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae'r Panel yn credu ni ddylai'r costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal pobl rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl.
- 13.21 Dylai fod gan bob aelod yr hawl i gael ad-daliadau o'u costau gofal, hyd at yr uchafswm o £403 y mis, ar gyfer gweithgareddau y mae'r cyngor unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, amser priodol a rhesymol i baratoi a/neu amser teithio. Mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar drefniadau penodol i roi hyn ar waith.
- 13.22 Mae'r Panel yn cydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r traul dilys hwn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y newid i'r gofyniad cyhoeddi a nodir yn Atodiad 4. I gefnogi aelodau presennol ac i annog amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o Gostau Gofal.

**Penderfyniad 48: Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.**

### **Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig**

- 13.23 Mae penaethiaid dinesig yn uwch swyddi o fewn cynghorau cymuned a thref. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw'r 'llysgennad' sy'n cynrychioli'r cyngor i bob math o sefydliadau a chyrrff. Mae'r Panel yn gorchymyn na ddylai aelodau eu hunain orfod talu unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol yn achos dirprwy bennaethiaid dinesig.

- 13.24 Mae'r Panel yn cydnabod yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer penaethiaid dinesig o ran trafndiaeth, cymorth ysgrifenyddol, rhoi i elusennau a dillad – rydym yn ystyried mai cyllidebau dinesig y cyngor yw'r rhain.
- 13.25 Nid yw penderfyniadau cyllido ynghylch cyllidebau dinesig o'r fath yn fater o daliadau cydnabyddiaeth personol i ddeiliad y swydd – maent yn ymwneud yn hytrach â chyllid sydd ei angen er mwyn i dasgau a dyletswyddau gael eu cyflawni. Mae rhyddid o hyd i gynghorau osod cyllidebau dinesig ar ba lefel bynnag sy'n briodol yn eu tyb hwy ar gyfer lefelau'r arweinyddiaeth ddinesig sydd ganddynt.
- 13.26 I osgoi unrhyw amheuaeth, nid mater o dalu cydnabyddiaeth ariannol i'r unigolyn sy'n dal yr uwch-swydd yw costau mewn perthynas ag, er enghraifft, trafndiaeth (costau cludiant corfforol neu gostau fesul milltir), cymorth ysgrifenyddol, cyfraniadau elusennol (prynu tocynnau, gwneud cyfraniadau neu brynu tocynnau raffl) a dillad. Dylai'r rhain ddod o'r gyllideb ddinesig.
- 13.27 Gan gydnabod bod rhai meiri a chadeiryddion cynghorau tref a chymuned a'u dirprwyon yn brysur iawn yn ystod eu blwyddyn yn y swydd, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai cynghorau tref a chymuned fedru gwneud taliad i'r unigolion sy'n dal y rolau hyn.
- 13.28 Taliad personol i unigolyn yw hwn ac mae'n gyfangwbl ar wahân i'r costau a nodir uchod.
- 13.29 Mae'r Panel wedi penderfynu mai uchafswm y taliad i gadeirydd neu faer cyngor tref neu gymuned yw £1,500. Uchafswm y taliad i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd fydd £500.

**Penderfyniad 49: Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad i faer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.**

**Penderfyniad 50: Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad i ddirprwy fae neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.**

## Gwneud Taliadau i aelodau

- 13.30 Mae Tabl 10 yn gosod pob un o'r penderfyniadau uchod, ac yn nodi os oes angen penderfyniad gan y Cyngor ynghylch bob un.
- 13.31 O ran taliadau gorfodol, lle nad oes angen penderfyniad gan y cyngor, dylai aelodau dderbyn arian y mae ganddynt hawl ei dderbyn yn gyffredinol.
- 13.32 Pan fo angen penderfyniad gan y Cyngor, dylid gwneud hyn yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i'r Adroddiad Blynyddol ddod i law.
- 13.33 Gall Cyngor fabwysiadu unrhyw rai neu'r cyfan o'r penderfyniadau nad ydynt yn cynnwys gorchymyn ond os yw'n gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddo fod yn berthnasol i'w holl aelodau.
- 13.34 Nodir ym mharagraffau 13.38 i 13.40 isod pryd fydd y taliadau yn dod i rym.
- 13.35 Ar dderbyn Adroddiad Blynyddol drafft yr hydref blaenorol, dylai cynghorau ystyried y penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a defnyddio hyn wrth lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb.

**Tabl 10**

Rhif y Penderfyniad	Oes angen penderfyniad gan y cyngor?
<b>42</b> Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.	Na – mae'r taliad o £150 yn orfodol ar gyfer pob aelod oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd
<b>43</b> Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.	Oes – rhaid i'r cyngor benderfynu sawl taliad o £500 bydd yn eu gwneud – i rhwng 1 a 5 o aelodau, oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd
<b>44</b> Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.	Oes – mae'n dewisol i dalu am hyd at 5 aelod ac, os caiff ei dalu, rhaid penderfynu swm (hyd at £500).
<b>45</b> Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.	Oes – mae talu costau teithio yn ddewisol
<b>46</b> Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall	Oes – mae talu costau cynhaliaeth dros nos yn ddewisol

roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.	
<b>47</b> Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.	Oes – mae talu lwfans colled ariannol yn ddewisol
<b>48</b> Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis.	Na – mae'r taliad yn orfodol ar gyfer pob aelod sy'n gymwys i hawlio ac yn dymuno gwneud hynny.
<b>49</b> Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i fae neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500.	Oes – mae'r taliad i Bennaeth Dinesig yn ddewisol.
<b>50</b> Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500.	Oes – mae'r taliad i Ddirprwy Bennaeth Dinesig yn ddewisol.
<b>51</b> Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal.	Na – Gall aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelodau Gweithrediaeth) dderbyn costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal yn unig; os ydynt yn gymwys i'w hawlio ac yn dymuno gwneud hynny.

13.36 Mae pob aelod yn gymwys i dderbyn y £150 fel sydd wedi'i nodi ym Mhenderfyniad 42 o ddechrau'r flwyddyn ariannol, oni bai iddynt gael eu hethol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol. Os felly, maent y gymwys i gael taliad pro-rata o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

13.37 Mae symiau eraill sy'n daladwy i aelodau mewn cydnabyddiaeth am ddyletswyddau penodol neu fel pennaeth dinesig neu ddirprwy bennaeth dinesig fel y gwelir ym Mhenderfyniadau 43, 44, 49 a 50 yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymgymryd â'r swydd yn ystod y flwyddyn ariannol.

13.38 Mater i bob cyngor fydd gwneud a chofnodi penderfyniad polisi ynglŷn â:

- phryd fydd taliad yn cael ei wneud i'r aelod;
- sut i rannu'r cyfanswm i nifer o daliadau llai; ac
- a ddylid adfer unrhyw daliadau i aelodau sy'n gadael neu'n newid eu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol, ac os felly, sut.

- 13.39 Mae taliadau yn ymwneud â Phenderfyniadau 46, 47a 48 yn daladwy pan fo'r gweithgarwch dan sylw wedi digwydd.
- 13.40 Fel nodwyd ym mharagraff 13.8, gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis rhoi heibio rhan neu'r cyfan o'r hawl i unrhyw un o'r taliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y Cyngor yn ysgrifenedig.

**Penderfyniad 51: Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal.**

### **Gofynion o ran cyhoeddusrwydd**

- 13.41 Mae'n ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion yr holl daliadau a wneir i aelodau unigol mewn Datganiad o Daliadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar hysbysfyrdau a/neu wefannau cynghorau (gyda mynediad rhwydd) a chael ei darparu ar gyfer y Panel trwy'r e-bost neu drwy'r post fan bellaf erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Panel yn tynnu sylw at y gofynion a nodir yn Atodiad 4. Mae'r Panel yn nodi gyda phryder nad yw nifer sylweddol o gynghorau wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn o hyd.

## 14. Cydymffurfio â Gofynion y Panel

### Cylch Gwaith y Panel dan y Mesur

- 14.1 Mae Adran 153 o'r Mesur yn galluogi'r Panel i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol<sup>8</sup> gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan Adroddiadau Blynyddol y Panel ac yn galluogi'r Panel i fonitro sut mae awdurdodau perthnasol yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.
- 14.2 Rhaid i awdurdod perthnasol weithredu penderfyniadau'r Panel yn yr adroddiad hwn o ddyddiad ei gyfarfod blynyddol neu ddyddiad a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.

### Monitro cydymffurfiaeth

- 14.3 Bydd y Panel yn monitro sut y mae pob awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â'r penderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol hwn trwy ystyried y gofynion canlynol:
- (i) Rhaid i awdurdod perthnasol gynnal **Rhestr flynyddol o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau** (Rheoliadau 4 a 5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol). Mae canllawiau yn Atodiad 3 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Rhestr.
  - (ii) Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod (Rheoliad 46 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol) ac anfon y Rhestr at y Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol a dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion cyhoeddusurwydd.
  - (iii) Rhaid hysbysu'r Panel am unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn cyn gynted â phosibl wedi i'r diwygiad cael ei wneud.

**Sylwer: Nid yw'r gofynion uchod yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned ar hyn o bryd. Mae'r canlynol yn berthnasol i'r holl awdurdodau gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.**

- (iv) Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol i bob aelod ac aelod cyfetholedig o safbwynt cyflog (sylfaenol, uwch a dinesig), lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau mewn Datganiad o Daliadau (yn unol ag Atodiad 4 sy'n nodi cynnwys y Gofynion o ran Cyhoeddusurwydd). Rhaid i hyn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb fod yn hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol – a rhaid ei gyflwyno i'r Panel erbyn y dyddiad hwnnw.

<sup>8</sup> Dehongliad o "Awdurdod Perthnasol" yn ôl Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW), Rhan 1, 'Dehongli'.

## 15. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gyngorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gyngorau

- 15.1 Diwygiodd Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan fewnosod Adran 143A. Mae hyn yn galluogi'r Panel i ffurfio barn ynglŷn ag unrhyw beth yn Natganiadau Polisi Tân awdurdodau sy'n ymwneud â chyflog y pennaeth gwasanaeth cyflogedig (fel arfer y prif weithredwr neu'r prif swyddog tân). Fe wnaeth adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ddiwygio'r mesur ymhellach gan ymestyn y swyddogaeth hon i gynnwys Prif Swyddogion Prif Gyngorau. Fodd bynnag, daw'r swyddogaeth hon i ben ar 31 Mawrth 2020.
- 15.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Panel sydd i'w gweld yn <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/rheoliadau-llywodraeth-leol-canllawiau-ar-gyfer-y-panel-annibynnol-ar-gydnabyddiaeth-ariannol.pdf>. Mae'r rhain yn nodi'r sail y bydd y Panel yn ei defnyddio i gyflawni'r swyddogaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth.
- 15.3 Swyddogaethau'r Panel a'r gofynion ar awdurdodau a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth a'r canllawiau dilynol yw:
- Os yw prif gyngor yn bwriadu newid cyflog pennaeth y gwasanaeth cyflogedig neu brif swyddog, neu os yw awdurdod tân ac achub yn bwriadu newid cyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig rhaid iddo ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn cyd-fynd â newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill yn yr awdurdod hwnnw (boed y newid yn gynnydd neu'n ostyngiad). Mae 'cyflog' yn cynnwys taliadau o dan gontract am wasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog o dan gontract cyflogaeth.
  - Rhaid i'r awdurdod roi sylw i argymhelliad/argymhellion y Panel wrth cyrraedd ei benderfyniad.
  - Caiff y Panel ofyn am unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i ddod i gasgliad a chyflwyno argymhelliad. Rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth a geisir gan y Panel.
  - Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n ei wneud. Y bwriad yw, er budd tryloywder, y bydd fel arfer yn gwneud hynny.
  - Gallai argymhelliad/argymhellion y Panel:
    - gymeradwyo cynnig yr awdurdod
    - mynegi pryderon am y cynnig; ac/neu
    - argymell amrywiadau i'r cynnig

Ar yr amod bod y rhain yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.



- 15.4 Mae gan y Panel bŵer cyffredinol hefyd i adolygu Datganiadau ar Bolisiâu Tâl Awdurdodau i'r graddau y maent yn ymwneud â phenaethiaid gwasanaeth cyflogedig (a phrif swyddogion tan 2020).
- 15.5 Mae'n bwysig nodi na fydd y Panel yn penderfynu beth fydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig unigol yn ei dderbyn.
- 15.6 Mae'r Panel yn ymwybodol iawn bod y swyddogaeth hon yn wahanol iawn i'w gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol aelodau. Fodd bynnag, mae'n ymgymryd â'r rôl hon drwy fod yn glir ac yn agored, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol mewn perthynas ag achosion unigol penodol. Anogir awdurdodau i ymgynghori â'r Panel yn gynnar yn ei broses ar gyfer gwneud penderfyniad ar y materion hyn. Bydd hyn yn galluogi'r Panel i ymateb mewn modd amserol.

### Datganiadau Polisi Cyflog

- 15.7 Mae paragraff 3.7 o'r canllawiau i'r Panel gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn: "Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r Panel i rôl adweithiol". Mae'n galluogi'r Panel i ddefnyddio'i bŵer i wneud argymhellion sy'n ymwneud â darpariaethau o fewn Datganiadau Polisi Cyflog awdurdodau lleol.

### Newidiadau i gyflogau prif swyddogion mewn prif gynghorau – Penderfyniadau'r panel 2018/19

Mae'r llythyrau a anfonwyd i'r Awdurdodau Lleol yn roi gwybod iddynt am benderfyniad y Panel i'w gweld ar wefan y Panel: <https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol>

Enw'r Awdurdod Lleol	Cynnig	Penderfyniad y Panel
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Recriwtio i swydd Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig	Cymeradwyo
Cyngor Sir Penfro	Tâl Cydnabyddiaeth Prif Swyddog – Pennaeth Gwasanethau Caffael	Cymeradwyo
Cyngor Abertawe	Trefniadau ar gyfer Prif Weithredwr dros dro	Cymeradwyo
Cyngor Sir Ynys Môn	Adolygu'r trefniadau Uwch-reoli yng Nghyngor Sir Ynys Môn	Cymeradwyo
Cyngor Sir Conwy	Adolygu'r Strwythur Cyflogau a Graddfeydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Cymeradwyo
Cyngor Sir Ddinbych	Adolygu Strwythur yr Uwch-arweinyddiaeth – Pennaeth	Cymeradwyo

	Cyllid a Phennaeth Cyfathrebu a Thai	
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Prif Swyddog	Cymeradwyo
Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr	Pennaeth Cyllid	Cymeradwyo
Cyngor Sir Penfro	Pennaeth Perfformiad a Chymuned	Cymeradwyo
Cyngor Sir Penfro	Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cymeradwyo
Caerffili	Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig	Cymeradwyo

## Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2020/21

Prif Gyngorau	
1.	Bydd y cyflog sylfaenol yn 2020/21 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn £14,218 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
2.	Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2020/21 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 5 a byddant yn dod i rym o 1 Ebrill 2020.
3.	Rhaid talu cyflog Band 3 o £22,918 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, a rhaid talu cyflog Band 5 o £918 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, a byddant yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
4.	Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael uwch-gyflog Band 3 o £22,918.
5.	Ni fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol.
6.	<ol style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch-swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi</li> <li>Ni ddylid talu uwch-gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig</li> <li>Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch-gyflog a chyflog dinesig a delir</li> <li>Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch-gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch-gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch-gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.</li> </ol>
7.	Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo. Mae ganddynt hawl o hyd i hawlio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliad o gostau gofal gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod Tân ac Achub
8.	Ni all aelodau sy'n cael cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw dâl gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref y maent yn aelod ohono. Maent yn dal yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal gan y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref.
9.	Dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol.

10.	Dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.
<b>Uwch-gyflogau Penodol neu Ychwanegol</b>	
11.	Gall Prif Gynghorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.
<b>Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol</b>	
12.	Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.
<b>Absenoldeb Teuluol</b>	
13.	Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.
14.	Pan fo deiliad uwch-gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery'r absenoldeb.
15.	Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol. Bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch-gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch-gyflog, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.
16.	Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch-gyflogau sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo.  Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod nifer yr uwch-gyflogau'n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o'r fath.
17.	Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol rhaid hysbysu'r Panel a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo.
18.	Rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.
<b>Awdurdodau Parciau Cenedlaethol</b>	
19.	Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fydd £4,010, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
20.	Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fod yn £12,710, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.

21.	Rhaid talu uwch-gyflog APC o £7,710 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.
22.	Gellir talu cyflog o £7,710 i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor.
23.	Gall APCau ymgeisio am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.
24.	Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan APC.
25.	Caiff uwch-gyflog APC ei dalu gan gynnwys cyflog sylfaenol APC.
26.	Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo.
<b>Awdurdodau Tân ac Achub</b>	
27.	Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,005.
28.	Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £10,705.
29.	Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £5,705 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.
30.	Gellir talu i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor. Y tâl fydd £5,705.
31.	Gall ATAau ymgeisio am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.
32.	Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan ATA.
33.	Telir uwch-gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.
34.	Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.
<b>Aelodau Cyfetholedig</b>	
35.	Rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) fel y gwelir yn nhabl 8.
36.	Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.
37.	Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

38.	Rhaid i swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe delir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.
39.	Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynvchu
40.	Rhaid i bob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, bod ei holl aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol.
<b>Ad-dalu Costau Gofal</b>	
41.	Rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebaw gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.
<b>Cynghorau Tref a Chymuned</b>	
42.	Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.
43.	Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.
44.	Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.

45.	<p>Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.<sup>9</sup> Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.</li> <li>• 25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.</li> <li>• 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.</li> <li>• 24c y filltir – beiciau modur preifat.</li> <li>• 20c y filltir – beiciau.</li> </ul>
46.	<p>Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.</li> <li>• £200 – Llundain dros nos.</li> <li>• £95 – rhywle arall dros nos.</li> <li>• £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.</li> </ul>
47.	<p>Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyd at £55.50 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr.</li> <li>• Hyd at £111.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr.</li> </ul>
48.	<p>Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.</p>
49.	<p>Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.</p>
50.	<p>Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer/dirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.</p>

51.	Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal.
-----	---

---

<sup>9</sup> Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan yrrwr sy'n drydydd parti (ddim yn un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.



## **Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)**

ar gyfer:

- a) **cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol**
- b) **swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gyngorau ac Awdurdodau Tân ac Achub**
- c) **Prif Swyddogion Prif Gyngorau**

### **Cyflwyniad**

Mae Rhan 8 (adrannau 141 i 160) ac atodlen 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel).

Mae Adrannau 62-67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn diwygio adrannau 142, 143, 144, 147, 148 ac 151 y Mesur ac yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Panel.

Mae'r pwerau a geir yn rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o'r Mesur (fel y'u diwygiwyd) wedi disodli'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (Rhif 1895 (Cy.196)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (Rhif 2555 (Cy.227)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (Rhif 1086 (Cy.115)).

Mae'r Mesur hefyd wedi disodli'r adrannau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â thaliadau i gynghorwyr yng Nghymru.

Nodir y lwfansau ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn. Dirymwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 (Rhif 895 (Cy. 115)) ar 1 Ebrill 2013.

## Rhan 1

### Cyffredinol

1. a. Teitl byr y Rheoliadau hyn yw: “Rheoliadau IRPW”.
- b. Daeth Rheoliadau IRPW i rym ar 1 Ebrill 2012. Nodir y dyddiad gweithredu ar gyfer pob awdurdod perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.
- c. Mae'n ofynnol i Awdurdodau lunio rhestr o daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, er mwyn iddynt allu eu cyflwyno i'r Panel a'u cyhoeddi (gweler paragraff 46).

### Dehongli

2. Yn Rheoliadau IRPW:
  - Ystyr “Deddf 1972” yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.
  - Ystyr “Deddf 2000” yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.
  - “Ystyr “Deddf 2013” yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
  - Ystyr “lwfans” yw'r union swm neu'r uchafswm y gellir ei ad-dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol am gostau yr aethpwyd iddynt yn anochel wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod perthnasol.
  - Ystyr “adroddiad blynyddol” yw adroddiad a luniwyd gan y Panel yn unol ag adran 145 o'r Mesur.
  - Mae ystyr “dyletswydd gymeradwy” mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn
  - Mae ystyr “Lwfans Mynychu” mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.
  - Ystyr “awdurdod” yw awdurdod perthnasol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Adran 144(2) o'r Mesur ac mae'n cynnwys awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, cyngor cymuned neu dref.
  - Mae i “Cyflog Sylfaenol” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 6 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel “Cyflog Sylfaenol ALI” i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o brif gyngor; “Cyflog Sylfaenol Parc Cenedlaethol” i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; a “Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub” i gyfeirio at Gyflog Sylfaenol aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
  - Mae i “Prif Swyddog” prif awdurdod yr ystyr a ddiffinnir yn Neddf Lleoliaeth 2011
  - “Pennaeth Dinesig” yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i gyflawni

dyletswyddau cadeirydd y cyngor hwnnw, ac mae wedi'i ddynodi'n faer neu'n gadeirydd.

- Mae "pwyllgor" yn cynnwys is-bwyllgor.
- Mae "cyngor tref neu gymuned" yn golygu mewn perthynas â Rhan 8 y Mesur, cyngor cymuned fel y'i diffinnir yn adran 33 Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu cyngor tref yn unol ag adran 245B o'r un Ddeddf.
- Ystyr "drafft ymgynghori" yw'r fersiwn ddrafft o adroddiad Blynyddol neu Atodol a luniwyd gan y Panel o dan Adran 146 (7) neu 147(8) o'r Mesur, y mae'n rhaid i'r Panel ystyried sylwadau a gyflwynwyd arno.
- "Awdurdod cyfansoddol" – yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod Parc Cenedlaethol yw hwn; yn achos awdurdodau tân ac achub yng Nghymru awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod tân ac achub yw hwn.
- Ystyr "grŵp rheoli" yw grŵp gwleidyddol mewn awdurdod lleol lle mae unrhyw un o'i aelodau yn rhan o'r weithrediaeth.
- Mae i "aelod cyfetholedig" yr ystyr a nodir yn adran 144 (5) o'r Mesur, hynny yw'r rhai sydd â'r hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod o fewn maes y pwyllgor y maent yn gwasanaethu arno.
- Mae i "ffi aelod cyfetholedig" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 19 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i "Costau Gofal" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 21 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr "Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd" yw'r pwyllgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Mesur.
- "Dirprwy Bennaeth Dinesig" yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i fod yn ddirprwy i faer neu gadeirydd y cyngor hwnnw.
- Ystyr "gweithrediaeth" yw gweithrediaeth awdurdod ar ffurf fel y nodir yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Mesur.
- Mae i "trefniadau gweithredol" yr ystyr a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.
- Mae i "absenoldeb teuluol", fel y'i diffinnir yn Adran 142 (2)(b) o'r Mesur, yr ystyr a roddir iddo gan Ran 2 o'r Mesur ac a gynhwysir yn y Rheoliadau sy'n ymwneud â hynny.
- Mae ystyr "Lwfans Colled Ariannol" mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau.
- Ystyr "awdurdod tân ac achub" yw awdurdod a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
- Ystyr "Pennaeth gwasanaeth cyflogedig" yw fel y dynodwyd o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- Ystyr Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw pwyllgor neu is-bwyllgor a

sefydlwyd gan ddau brif gyngor neu fwy o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.

- Ystyr “grŵp yr wrthblaid fwyaf” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli sydd â nifer uwch o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod.
- Ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- “Ystyr “aelod”, mewn perthynas ag awdurdod lleol neu gyngor cymuned neu dref, yw unigolyn sydd wedi’i ethol i wasanaethu fel cynghorydd i’r awdurdod hwnnw; yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol a hefyd unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru; yn achos awdurdodau tân ac achub yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol.
- Ystyr “awdurdod Parc Cenedlaethol” yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- Mae i “busnes swyddogol” yr ystyr a nodir yn Adran 142 (10) o’r Mesur mewn perthynas â thalu lwfansau i ad-dalu costau gofal, teithio a chynhaliaeth yr aethpwyd iddynt yn anochel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol (ac eithrio cynghorau tref a chymuned) wrth:
  - a. Fynychu cyfarfod o’r awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau’r awdurdod neu unrhyw gorff y mae’r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw un o bwyllgorau corff o’r fath.
  - b. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae’r awdurdod yn aelod ohoni.
  - c. Mynychu cyfarfod yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan un o bwyllgorau’r awdurdod neu gan un o gydbwyllgorau’r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.
  - d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei weithrediaeth.
  - e. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â’u cyflawni o fewn yr ystyr a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, fel y’i diwygiwyd.
  - f. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy’n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor.
  - g. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod i archwilio safle neu awdurdodi archwiliad o safle.
  - h. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi gan aelodau prif gynghorau mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy’n deillio o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol.
  - i. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddsbarth a gymeradwyir felly, ac yr

ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni.

- Ystyr “grŵp gwleidyddol arall” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw
- Ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu” yw pwyllgor yn yr awdurdod sydd â'r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan Ran 6 o'r Mesur.
- “Ystyr “Panel” yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn adran 141(1) ac atodlen 2 o'r Mesur.
- Ystyr "datganiad polisi cyflog" yw datganiad a gynhrychir gan awdurdod perthnasol o dan adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.
- Ystyr "Aelod llywyddol" yw aelod o brif gyngor sydd wedi ei ddynodi gan y cyngor hwnnw i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chadeirio ei gyfarfodydd a'i drafodion.
- Ystyr “prif gyngor” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- Mae i “swyddog priodol” yr un ystyr ag yn adran 270(3) o Ddeddf 1972.
- Ystyr "corff cyhoeddus" yw corff fel y'i diffinnir yn adran 67(b) o Ddeddf 2013.
- “Ystyr "darpariaeth gymwys" yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad i benderfyniad blaenorol y Panel. (Adran 65 (c) o Ddeddf 2013).
- "Awdurdod cymwys perthnasol" yw awdurdod o fewn ystyr adran 63 o Ddeddf 2013, y mae'n ofynnol iddo gynhyrchu datganiad polisi cyflog.
- Diffinnir “awdurdod perthnasol” yn Adran 144(2) o'r Mesur (fel y'i diwygiwyd) ac yn adran 64 o Ddeddf 2013, ac, at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n cynnwys awdurdod lleol/prif gyngor, cyngor tref neu gymuned, awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i “materion perthnasol” yr un diffiniad ag a nodir yn Adran 142(2) o'r Mesur.
- Ystyr “rhestr” yw rhestr sy'n nodi penderfyniadau'r awdurdod mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod hwnnw) i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw.
- Mae i “Uwch-gyflog” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 11 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel “Uwch-gyflog Awdurdod Lleol/Prif gyngor” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o brif gyngor; “Uwch-gyflog Parc Cenedlaethol” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; neu “Uwch-gyflog Awdurdod Tân ac Achub” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o awdurdod Tân ac Achub.
- Mae “absenoldeb oherwydd salwch” yn golygu'r trefniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.
- Mae i “adroddiad atodol” yr ystyr a nodir yn adran 146(4 i 8) o'r Mesur.

- Mae i “lwfans teithio a chynhaliaeth” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 25 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i “blwyddyn” yr ystyron canlynol:

“blwyddyn ariannol” – cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth; “blwyddyn galendr” – y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr;

“blwyddyn ddinesig” – y flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod blynyddol yr awdurdod lleol ac yn dod i ben ar y diwrnod cyn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol; yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub dyma'r cyfnod o 12 mis sy'n dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

## **Rhan 2: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau neu Aelodau Cyfetholedig**

### **Dechrau cyfnod swydd**

3. Mae cyfnod swydd:
  - Aelod o awdurdod lleol yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw yn gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.
  - Aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn dechrau ar ddyddiad y penodiad hwnnw. Mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
  - Aelod o awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod tân ac achub yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
  - Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad y'i penodir gan yr awdurdod perthnasol.

### **Rhestr o gydnabyddiaeth ariannol aelodau (y Rhestr) (Nid yw'n berthnasol i gynghorau cymuned neu dref – gweler Rhan 5)**

4. Rhaid i awdurdod lunio rhestr o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Rhaid i swm y taliadau hynny gyd-fynd â'r penderfyniadau a wnaeth y Panel ar gyfer y flwyddyn honno yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Rhaid llunio'r rhestr cyn pen pedair wythnos yn dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

## Diwygio'r Rhestr

5. Gall awdurdod ddiwygio'r Rhestr unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) ar yr amod bod y cyfryw ddiwygiadau yn cydfynd â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.

## Cyflog Sylfaenol

6. Rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu cyflog sylfaenol, fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, i bob un o'i aelodau. Rhaid talu'r un cyflog i bob aelod. Yn achos prif gynghorau yn unig, mae'r cyflog hwn yn parhau'n daladwy yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.
7. Ni all aelod dderbyn mwy nag un cyflog sylfaenol gan awdurdod perthnasol, ond gall aelod o un awdurdod perthnasol dderbyn cyflog sylfaenol pellach trwy gael ei benodi'n aelod o awdurdod perthnasol arall (ac eithrio yn yr achos a nodir ym mharagraff 16).
8. Pennir y cyflog sylfaenol yn unol ag adran 142(3) o'r Mesur a bydd yn un o'r canlynol:
  - Y swm y mae'n rhaid i'r awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.
  - Yr uchafswm y gall yr awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.
9. Os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben rywbryd heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), bydd gan yr aelod hwnnw hawl i gyfran o'r cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i'r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae'r aelod yn ei swydd.
10. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

## Uwch-gyflog

11. Yn amodol ar baragraffau 12 i 18 gall awdurdod dalu uwch-gyflog i aelodau y mae wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddynt. Rhaid i'r cyfryw daliadau gyd-fynd â phenderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y gwneir y taliadau mewn perthynas â hi a rhaid eu nodi yn Rhestr yr awdurdod hwnnw. Yn achos prif gynghorau yn unig, bydd uwch-gyflog yn parhau'n daladwy yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd.
12. Bydd y Panel yn pennu'r canlynol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol:
  - Y categorïau o aelodau sy'n gymwys i gael uwch-gyflog na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

- Y disgrisiwn sydd ar gael i awdurdodau o ran talu uwch-gyflogau na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu categori o awdurdod.
13. Bydd yr uwch-gyflogau sy'n daladwy yn cydymffurfio ag adran 142(3) o'r Mesur a byddant yn nodi:
    - Y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
    - Yr uchafswm y gall awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
  14. Bydd yr uwch-gyflog yn gyfuniad o'r cyflog sylfaenol a swm ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldeb penodol perthnasol a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mae'n bosibl na fydd y swm hwn yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu categori o awdurdod.
  15. Bydd y Panel, yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, yn pennu naill ai'r gyfran uchaf o'i aelodaeth neu gyfanswm yr aelodau y gall awdurdod dalu uwch-gyflogau iddynt. Ni all y ganran fod yn uwch na hanner cant y cant heb ganiatâd penodol Gweinidogion Cymru (Adran 142(5) o'r Mesur). Yn achos prif gynghorau yn unig gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch-gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb teuluol deiliad swydd ag uwch-gyflog (yn amodol ar y terfyn o 50%).
  - 15(a). Yn achos prif gynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch-gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb oherwydd salwch deiliad swydd ag uwch-gyflog fel y pennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol neu mewn Adroddiad Atodol.
  - 15(b). Mae taliadau i gadeiryddion Cydbwyllgorau neu Is-bwyllgorau i Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o'i aelodaeth y gall awdurdod dalu uwch-gyflogau iddynt yn amodol ar yr uchafswm cyffredinol o hanner cant y cant sydd wedi'i gynnwys yn Adran 142(5) o'r Mesur. Bydd y Panel yn pennu symiau taliadau o'r fath mewn Adroddiad Blynyddol neu Atodol.
  16. Ni ddylai awdurdod dalu mwy nag un uwch-gyflog i unrhyw aelod. Ni all aelod prif gyngor sy'n cael uwch-gyflog fel arweinydd awdurdod lleol neu aelod o weithrediaeth awdurdod lleol (y mae'r Panel wedi pennu ei fod yn llawn-amser) gael ail gyflog fel aelod a benodir i wasanaethu ar awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
  - 16(a). Nid yw paragraff 16 yn berthnasol i daliadau a wneir i gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n cael uwch-gyflog am rôl nad yw wedi'i dosbarthu fel un sy'n gyfwerth ag amser llawn. Mae'n parhau i fod yn berthnasol i arweinwyr neu i aelodau gweithrediaeth.



17. Os nad oes gan aelod, trwy gydol y flwyddyn, gyfrifoldebau penodol sy'n rhoi hawl iddo gael uwch-gyflog, bydd tâl yr aelod hwnnw'n gyfran o'r cyflog sy'n cyfateb i'r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae'r aelod hwnnw'n ysgwyddo'r cyfryw gyfrifoldeb.
18. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu uwch-gyflog yr aelod tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud â'r elfen o'r taliad sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb penodol yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol.

### **Talu i Aelodau Cyfetholedig**

19. Rhaid i awdurdod perthnasol ddarparu ar gyfer talu ffi i aelod cyfetholedig fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mewn perthynas â'r rheoliad hwn ystyr aelod cyfetholedig yw aelod fel y'i diffinnir yn Adran 144(5) o'r Mesur ac y'i nodir ym mharagraff 2 o'r Rheoliadau hyn.
20. Os caiff aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu ffi aelod cyfetholedig tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur).

### **Lwfansau**

#### **Costau Gofal**

21. Rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer gwneud ad-daliad i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod mewn perthynas â'r cyfryw gostau sy'n gysylltiedig â threfnu gofal ar gyfer plant neu ddibynnyddion neu ar gyfer yr aelod unigol yr aethpwyd iddynt yn anorfod wrth gyflawni busnes swyddogol fel aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylid gwneud taliadau o dan y paragraff hwn:
  - Mewn perthynas ag unrhyw blentyn dros bymtheg oed neu ddibynnydd oni bai fod yr aelod/aelod cyfetholedig yn bodloni'r awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu ddibynnydd a achosodd i'r aelod fynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau aelod neu aelod cyfetholedig.
  - I fwy nag un aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod mewn perthynas â gofal ar gyfer yr un plentyn neu ddibynnydd.
  - I roi mwy nag un ad-daliad ar gyfer gofal i aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod na all ddangos er bodd yr awdurdod bod yn rhaid i'r aelod/aelod cyfetholedig wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofalu am wahanol blant neu ddibynnyddion.
22. Mae'r Panel yn pennu'r uchafswm o ran costau gofal sy'n daladwy gan awdurdod yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

23. Os caiff aelod/aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod beidio â thalu'r rhan o'r ad-daliad costau gofal sy'n daladwy i'r aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).
24. Rhaid i Restr awdurdod nodi uchafswm yr ad-daliadau costau gofal sy'n daladwy bob mis a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno hawliadau, gan roi sylw llawn i benderfyniadau'r Panel yn hyn o beth.

### **Lwfansau teithio a chynhaliaeth**

25. Yn amodol ar baragraffau 26 a 27 isod mae gan aelod neu aelod cyfetholedig hawl i gael taliadau gan yr awdurdod ar ffurf lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ôl cyfraddau a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Bwriedir i'r cyfryw lwfansau dalu costau yr aed iddynt gan aelod neu aelod cyfetholedig wrth gyflawni'r busnes swyddogol oddi mewn i ffin yr awdurdod neu oddi allan iddi.

### **(Dim ond i Brif Gyngorau y mae paragraffau 26 a 27 yn berthnasol)**

26. Dim ond os yw'r awdurdod yn fodlon y gellir cyfiawnhau hynny am resymau economaidd y dylid talu lwfans cynhaliaeth i aelod o awdurdod lleol am gyflawni busnes swyddogol o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol lle mae'n aelod. Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig awdurdod lleol sy'n byw y tu allan i'r awdurdod hwnnw.
27. Gall awdurdod lleol wneud darpariaeth, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yr ystyria'n briodol, i aelodau hawlio costau milltired ar gyfer busnes swyddogol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward lle maent yn deillio o gyflawni swyddogaethau'r sir neu'r fwrdeistref sirol.
28. Os caiff aelod neu aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r lwfans teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

### **Rhan 3: Darpariaethau pellach**

#### **Pensiynau**

29. O dan Adran 143 o'r Mesur, gall y Panel wneud penderfyniadau o ran y trefniadau pensiwn ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yn ei Adroddiadau

Blynyddol neu Atodol. Gall penderfyniadau o'r fath:

- Nodi'r disgrifiad o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn iddynt.
- Disgrifio'r materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy.
- Gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer prif gynghorau gwahanol.

### **Lwfansau i gefnogi swyddogaeth aelod o awdurdod lleol**

30. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer gofynion aelod i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Y Panel fydd yn pennu sut y dylid darparu'r cymorth hwn yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### **Talu treuliau ymweliadau swyddogol ac ymweliadau cwrteisi**

31. Bydd y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn parhau i fod yn gymwys, ond ni ellir gwneud unrhyw daliad i unigolyn o dan y trefniant hwnnw pan fo taliad wedi'i wneud i'r unigolyn hwnnw yn unol ag unrhyw daliad o wneir o dan y Rheoliadau hyn.

### **Trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol**

32. Mae Rhan 2 o'r Mesur yn nodi hawliau aelodau awdurdodau lleol o ran absenoldeb teuluol. Bydd y Panel yn nodi ei benderfyniadau a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer talu cyflogau a lwfansau gan brif gynghorau yn hyn o beth yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### **Absenoldeb oherwydd salwch**

- 32(a) Bydd trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb hirdymor oherwydd salwch gan ddeiliaid uwch-gyflogau prif awdurdodau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

## **Rhan 4: Cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

### **Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

33. Gall awdurdod fynnu bod y cyfryw ran o gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud ar gyfer unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:
  - wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu Reoliadau a wnaed o

dan y Ddeddf honno.

- yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod.
- neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

### **Peidio â derbyn cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

34. O dan Adran 154 o'r Mesur gall unrhyw aelod neu aelod cyfetholedig, ddewis drwy hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod yn ysgrifenedig, peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael cyflog, lwfans neu ffi a bennwyd gan y Panel ar gyfer y flwyddyn benodol honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod).

## **Rhan 5: Darpariaethau penodol sy'n ymwneud â chynghorau tref a chymuned ("y cyngor")**

### **Dehongli**

35. At ddibenion y Rhan hon, ystyr aelod yw aelod etholedig ac aelod cyfetholedig.

### **Lwfansau**

36. Lwfansau:
- a) Penderfynir drwy'r Adroddiad Blynyddol neu drwy Adroddiad Atodol ar y trefniadau a'r swm ar gyfer taliad blynyddol i aelodau mewn perthynas â'r costau a ystyriaeth i nifer wrth gyflawni rôl aelod. Hefyd, lle bo'n briodol, ystyrir yr amrywiad ym maint neu amgylchiadau ariannol cynghorau gwahanol.
  - b) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, wneud taliadau i aelodau mewn perthynas â chostau teithio i fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu'r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y swm y gellir ei hawlio yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
  - c) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau pan fyddant yn mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu'r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y trefniadau ar gyfer ad-dalu yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
  - d) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, dalu iawndal am Golled Ariannol i'w aelodau lle mae colled o'r fath wedi digwydd trwy fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y Lwfansau yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
  - e) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, dalu lwfans i gadeirydd, dirprwy gadeirydd neu faer y cyngor at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Nodir y lwfans yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
  - f) Penderfynir drwy'r Adroddiad Blynyddol neu drwy Adroddiad Atodol ar y trefniadau ar gyfer talu lwfans cyfrifoldeb i aelodau cyngor. Hefyd, lle

bo'n briodol, ystyrir maint neu amgylchiadau ariannol cyngorau gwahanol.

- g) Rhaid i'r cyngor ad-dalu costau gofal i aelod fel y penderfynwyd yn Adroddiad Blynyddol y Panel.
37. Gall aelod ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael lwfans dan y Rheoliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig.
38. Rhaid i aelod sy'n hawlio iawndal am Golled Ariannol lofnodi datganiad nad yw'r aelod wedi gwneud, nac yn bwriadu gwneud, unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef.
39. "Ystyr "Dyletswydd Gymeradwy" dan y Rhan hon yw
- i. Mynychu cyfarfod o'r cyngor neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor neu unrhyw gorff arall y mae'r cyngor yn penodi neu'n enwebu pobl iddo neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau corff o'r fath.
  - ii. Mynychu unrhyw gyfarfod arall a awdurdodir gan y cyngor neu gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor, neu un o gydbwyllgorau'r cyngor ac un neu fwy o gynghorau, neu is-bwyllgor i gydbwyllgor o'r fath, ar yr amod bod o leiaf ddau aelod o'r cyngor wedi cael eu gwahodd a, lle caiff y cyngor ei rannu'n grwpiau gwleidyddol, bod o leiaf ddau grŵp o'r fath wedi'u gwahodd.
  - iii. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas ar gyfer cynghorau y mae'r cyngor yn aelod ohoni.
  - iv. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y cyngor.
  - v. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan y cyngor neu ddyletswydd o fath a gymeradwyir gan y cyngor i gyflawni ei swyddogaethau neu swyddogaethau unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau

## **Rhan 6: Amrywiol**

### **Trefniadau ar gyfer taliadau**

40. Rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw. Gellir gwneud y taliadau hynny ar yr adegau ac mor reolaidd ag a bennir gan yr awdurdod.

### **Hawliadau**

41. Rhaid i awdurdod nodi terfyn amser rhwng y dyddiad y mae hawl i lwfans teithio neu gynhaliath yn digwydd a phan fydd yn rhaid i gais am y lwfansau hynny gael ei wneud gan y sawl y maent yn daladwy iddo. Fodd bynnag, nid

yw hyn yn rhwystro awdurdod rhag gwneud taliad os na hawlir y lwfans o fewn y cyfnod a nodwyd.

42. Rhaid cyflwyno derbynebaw priodol sy'n profi costau gwirioneddol gydag unrhyw hawliad am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn (ac eithrio ceisiadau am gostau teithio mewn cerbyd modur preifat).

### Osgoi dyblygu

43. Rhaid i hawliad am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig yn nodi nad yw'r aelod / aelod cyfetholedig wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef neu mae'n rhaid anfon datganiad o'r fath gyda'r hawliad.

### Cofnodion o gyflogau, lwfansau a ffioedd

44. Rhaid i awdurdod gadw cofnod o'r taliadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn. Rhaid i'r cofnod:
  - Nodi enw'r derbynnydd a swm a natur pob taliad.
  - Bod ar gael, ar bob adeg resymol, i'w archwilio (am ddim) gan unrhyw etholwr llywodraeth leol (o fewn ystyr adran 270(1) o Ddeddf 1972) yn ardal yr awdurdod.
  - Alluogi unigolyn sydd â hawl i archwilio'r cofnod wneud copi o unrhyw ran ohono ar ôl talu unrhyw ffi resymol y gall yr awdurdod ofyn amdani.

### Gofynion o ran cyhoeddusrwydd

(Mae cynnwys gofynnol gofynion o ran cyhoeddusrwydd wedi'i gynnwys mewn atodiad i'r Adroddiad Blynyddol)

45. Rhaid i awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan y Rheoliadau hyn ac unrhyw Adroddiad gan y Panel, a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati, wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod. **(Nid yw'r adran hon yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned).**
46. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd blwyddyn, rhaid i bob awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi, yn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod / aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog sylfaenol, uwch-gyflog, ffi aelod cyfetholedig, lwfansau teithio a chynhaliaeth.
